

Prifysgol Cymru
Llawlyfr Asesu Dyfarniadau a Addysgir
Hydref 2015

Tabl Cynnwys

1. EGWYDDORION ASESU: Beth yw egwyddorion asesu.....	4
Dysgu, addysgu ac asesu.....	4
Pwrpas Asesiadau.....	4
Prif Egwyddorion Asesu.....	5
2. ASESIADAU A SAFONAU: Beth yw diben asesiadau a safonau?.....	6
Barnu safonau dyfarniadau'r Brifysgol.....	6
Rôl arholwyr mewnol.....	6
Rôl arholwyr allanol	6
Sicrhau safonau: Gofynion sylfaenol y Brifysgol ar gyfer cymeradwyo asesiadau	7
3. STRATEGAETHAU ASESU : Sut i asesu'n effeithiol – Cyffredinol.....	8
Canlyniadau asesu a dysgu	8
Cysylltu strategaethau asesu modiwl a rhaglen	8
Adlewyrchu'r lefel academiaidd cywir	9
Defnydd cywir o iaith.....	10
Cysylltu hyn â meini prawf asesu	12
4. DULLIAU ASESU: Sut i asesu'n effeithiol - Manylion	14
Trosolwg o'r dulliau asesu	14
Prif nodweddion gwahanol ddulliau	14
Arholiadau.....	14
Gwaith cwrs.....	15
Gwaith ymarferol neu waith maes.....	15
Cyflwyniadau a phortffolios.....	15
Asesiad a arweinir gan ymarfer	16
Gwaith grŵp.....	16
Asesu gan gymheiriaid a hunanasesu.....	16
Asesu ar-lein	17
Paru dulliau â modiwlau: Cyd-destun a chynnwys modiwlau	17
Paru â modiwlau: Lefel modiwlau	17
5. MEINI PRAWF ASESU: Sut i wneud asesu'n ddibynadwy.....	19
Diffinio meini prawf asesu.....	19
Cysylltu meini prawf â chanlyniadau dysgu modiwl.....	19
Cysylltu meini prawf â chanlyniadau dysgu rhaglen	19
Perthnasu marciau â meini prawf asesu	20
Llunio cynllun marcio	20
6. CYMERADWYO ASESIADAU: Sut i gael cymeradwyaeth	22
Trosolwg o broses y Brifysgol ar gyfer cymeradwyo meini prawf asesiadau.....	22
Dyddiadau cau cyflwyno.....	23
Beth sy'n gorfod cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo?	24
Ymdrin ag asesiadau ail-sefyll	24

Asesiadau mewn ieithoedd ar wahân i Gymraeg neu Saesneg	25
7. MARCIO ASESIADAU: Sut i gael y canlyniadau iawn.....	27
Gweithdrefnau marcio	27
Safoni mewnol a marcio dwbl.....	27
Safonau gofynnol ar gyfer safoni a marcio dwbl.....	28
Cymodi gwahaniaethau rhwng marcwyr mewnol.....	28
Trefnu safoni mewnol a marcio dwbl	29
8. ADBORTH I FYFYRWYR: Sut i ddweud wrth y myfyriwr am yr asesiad.....	31
Datgelu marciau i fyfyrwr.....	31
Darparu adborth	31
Ffurfiâu o adborth	32
Egwyddorion adborth da.....	32
9. LLÊN-LADRAD - ATAL A RHEOLI	33
Ymgorffori amddiffyniadau mewn asesiadau	33
Hyfforddiant	33
Canfod llên-ladrad	33
Gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â throsgedd academiaidd.....	34
10. CEFNOGI MYFYRWYR AG ANABLEDDAU DYSGU PENODOL MEWN ASESIAD.....	34
Diffinio anawsterau dysgu penodol.....	35
Dyslecsia	35
Dyspracsia.....	35
Dyscalcwlia.....	35
Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd	35
Dulliau safonol o gefnogaeth	35
Adnoddau defnyddiol	36
11. DIOGELWCH DEFNYDD ASESU: Sut i'w gadw'n ddiogel.....	37
Disgwyliadau sylfaenol y Brifysgol	37
Cadw asesiadau a sgriptiau.....	37
12. CANLLAWIAU AR DDULLIAU ASESU	38
Arholiadau	38
Gwaith cwrs	38
Gwaith ymarferol neu waith maes	39
Cyflwyniadau a phortffolios	39
Gwaith grŵp	39
Materion allweddol wrth asesu gwaith grŵp	39
Ffyrdd o asesu gwaith grŵp	40
Ffynonellau sy'n dangos tystiolaeth o gyfraniad myfyrwr unigol i waith grŵp	40
Asesu gan gymheiriaid a hunanasesu	41
Asesiadau ar-lein	41
13. ADNODDAU.....	43

Atodiad A: Meini prawf Prifysgol Cymru.....	46
Atodiad B: Meini Prawf Generig ar gyfer Asesu Modiwl	47
Atodiad C: Templed Calendr Cymeradwyo Asesiad	50
Atodiad D: Ffurflen Cymeradwyo Asesiad	1
Atodiad E: Rhestr Wirio Cyflwyno Asesiad	2
Atodiad F: Templed dilysu defnydd asesu sydd wedi ei gyfieithu	3
Atodiad G: Ffurflen Adborth Enghreifftiol.....	4

1. EGWYDDORION ASESU: Beth yw egwyddorion asesu

Mae'r bennod ganlynol yn rhoi cyflwyniad i brif egwyddorion asesu a throsolwg o bwysigrwydd asesu.

Dysgu, addysgu ac asesu

At ddibenion y llawlyfr hwn mae asesu'n cynnwys pob ffurf ar weithgareddau ffurfiannol a chyfunol, sy'n cynnwys, *inter alia*, gwaith cwrs, profion ystafell ddosbarth, arholiadau, cyflwyniadau a phortffolios.

Mae asesu'n cyflawni pedair swyddogaeth eang o fewn yr amgylchedd dysgu ac addysgu. Mae'n:

- darparu dull ar gyfer graddio, pasio neu fethu myfyrwyr. Caiff perfformiad myfyrwyr ei farnu ar sail cyflawni amcanion a chanlyniadau dysgu arfaethedig dysgu'r modiwl a'r cwrs mae'r myfyriwr wedi eu hastudio
- sylfaen ar gyfer penderfyniadau ynghylch a yw myfyriwr yn barod i fynd yn ei flaen, neu i gymhwyso ar gyfer dyfarniad
- galluogi myfyrwyr i gael adborth ar eu dysgu, eu cryfderau a gwendidau, ac yn eu helpu i wella eu perfformiad
- galluogi staff i werthuso effeithiolrwydd eu haddysgu.¹

Pwrpas Asesiadau

Yn ogystal â'i bwrpas ymarferol, mae i asesu bwrpas sy'n ddibynol ar y cyd-destun, a gaiff ei drefnu gan yr ASA fel a ganlyn:

- I'r myfyriwr, mae darnau unigol o asesiadau'n ysgogi astudio; maent yn hybu dysgu trwy ddarparu adborth ar berfformiad a helpu myfyrwyr i ganfod eu cryfderau a gwendidau.
- I'r darlithydd, mae asesiadau'n gyfle i werthuso'r wybodaeth, dealltwriaeth, gallu a'r sgiliau mae gwahanol fyfyrwyr wedi eu cyflawni. Mae proffil cyffredinol perfformiad myfyriwr yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer asesu pa mor effeithiol yw cynnwys a dulliau addysgu cwrs, a thrwy hynny'n hwyluso gwelliant.
- I'r sefydliad, mae asesiadau'n darparu'r wybodaeth sy'n sail i'r penderfyniadau a wneir ynghylch cynnydd myfyriwr a'r dyfarniadau a dderbynnir. Mae'r broses yn galluogi'r sefydliad i sicrhau bod safonau priodol yn cael eu bodloni, yn unol â fframweithiau a gytunir yn genedlaethol, fel datganiadau meincnod pwnc a'r fframweithiau ar gyfer cymwysterau cymhwyster addysg uwch. Mae'r wybodaeth a gynhyrchir gan asesu, fel dosraniad marc neu radd, yn creu dull gwerthfawr o sicrhau a gwella ansawdd.
- Mae gan randdeiliaid eraill ddiddordeb yn y broses asesu hefyd. Gall cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol ddefnyddio canlyniadau asesiadau i ddyfarnu achrediad proffesiynol a/neu statws 'addasrwydd i ymarfer'. Mae cyflogwyr yn defnyddio cofnod asesu unigolyn fel modd o asesu eu cyflawniadau addysg a'u haddasrwydd ar gyfer cyflogaeth.²

Mae asesu'n rhan ganolog o'r broses ddysgu, a gall fod naill ai'n ffurfiannol neu'n gyfunol. Nod asesiadau ffurfiannol yw monitro dysgu myfyrwyr, rhoi cyfle i athrawon wella eu haddysgu ac i'r myfyrwyr wella eu dysgu. Mae'r broses yn cynorthwyo'r broses o ganfod cryfderau a gwendidau'r athro a'r myfyriwr, ac fel arfer cânt eu defnyddio yng nghanol modiwl i ganiatáu addasu'r ymagwedd tuag at ddysgu ac addysgu.

¹ Prifysgol Ulster, *Assessment Handbook*, Ulster, 2014, 3.

² Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, *Understanding assessment: its role in safeguarding academic standards and quality in higher education*, 2nd Argraffiad, Caerloyw, 2012, 6.

Ar y llaw arall, nod asesiadau cyfunol yw gwerthuso cyfanrwydd dysgu'r myfyriwr ar ddiwedd modiwl neu gyfnodau allweddol o fewn modiwl. Yn aml mae asesiadau cyfunol yn golygu cryn bwysoli tuag at ganlyniad cyffredinol y modiwl cyfan. Gall asesiad cyfunol fod ar ffurf, *inter alia*, arholiad terfynol, prosiect, traethawd neu bortffolio.

Prif Egwyddorion Asesu

Mae asesiadau wrth wraidd cynnal safonau ac ansawdd dyfarniadau'r Brifysgol yn seiliedig ar gwblhau rhaglenni astudiaeth cymeradwy a ddarperir mewn canolfannau cydweithredol. Rhaid cynnal asesiadau ac adolygiadau yn unol â'r meini prawf manwl sydd wedi eu dogfennu ac wedi eu cytuno ar adeg dilysu, a chyda gofynion y Fframwaith Academaidd Cyffredinol ar gyfer Dyfarniadau a Addysgir sydd wedi ei gymeradwyo gan y Brifysgol.

Disgwylir y bydd asesiadau yn:

Deg a Chyfartal	Bydd asesiadau'n asesu'r hyn y mae wedi bod yn ofynnol i'r myfyrwyr ei ddysgu. Bydd yn faich gwaith priodol ac yn gymaradwy â dyfarniadau eraill.
Gwahaniaethol	Dylai asesiadau ganiatáu i arholwyr wahaniaethu rhwng perfformiad ymgeiswyr, gan ddangos y rhai sy'n bodloni'r canlyniadau dysgu arfaethedig a'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny. Dylai asesiadau sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu marcio'n briodol ar sail eu perfformiad.
Dibynadwy	Mae canlyniadau'r asesiadau'n adlewyrchu perfformiad a dealltwriaeth y myfyriwr o'r pwnc yn gywir.
Trwyadl	Dylai'r broses asesu fesur perfformiad myfyrwyr sy'n briodol i'r lefel a ddiffinnir gan y cwrs. Dylid dilyn pob proses ddiffiniedig yn fanwl.
Dilys	Bydd yr asesiad yn profi'r hyn mae'r myfyriwr yn ei wybod ac yn ei ddeall.
Dichonadwy	Ni ddylai'r asesiad gymryd gormod o amser a dylid sicrhau nad yw'r costau'r sydd ynghlwm â chynnal yr asesiad yn gorbwyso'r buddiannau.

2. ASESIADAU A SAFONAU: Beth yw diben asesiadau a safonau?

Mae'r bennod ganlynol yn nodi sut mae asesiadau'n chwarae rhan allweddol yn sicrhau safonau dyfarniad academiaidd.

Barnu safonau dyfarniadau'r Brifysgol

Er mwyn sicrhau safonau dyfarniadau'r Brifysgol sy'n seiliedig ar gwblhau rhaglenni astudiaeth cymeradwy yn llwyddiannus mewn canolfannau cydweithredol, rhaid i asesiadau ac arholiadau gael eu cynnal yn unol â meini prawf manwl sydd wedi eu dogfennu ac a gytunwyd ar ddilysiad, a chyda gofynion y Fframwaith Academiaidd Cyffredin ar gyfer Dyfarniadau a Addysgir a gymeradwywyd gan y Brifysgol.

Rhaid i gwestiynau asesiad (ac aseiniadau/briffiau prosiect, ble'n briodol):

- archwilio maes llafur y rhaglen;
- allu cael eu cwblhau yn yr amser sydd ar gael;
- fod yn gysylltiedig â chanlyniadau dysgu'r modiwl a'r rhaglen;
- gael eu gosod yn briodol i gyd-fynd â lefel yr astudiaeth.

Ar yr un pryd, bydd angen i ganolfannau cydweithredol (a'r Brifysgol) sicrhau bod dyfarniadau'n gyfwerth â rhai sefydliadau eraill sy'n dyfarnu graddau yn y DU.

Trwy oruchwylio cynnwys o ran canlyniadau dysgu a lefelau asesiadau y mae'r Brifysgol yn gweithredu'n bennaf i sicrhau safonau ei dyfarniadau.

Y cam cyntaf a gymerir i sicrhau safon y dyfarniad yw cymeradwyo asesiad drafft. Mae gwybodaeth am y broses hon ym Mhennod 6 Cymeradwyo Asesiadau: Sut i gael cymeradwyaeth.

Rôl arholwyr mewnol

Cyn gynted â phosibl ar ôl cwblhau arholiad/asesiad dylid cyflwyno'r papurau ateb i'w marcio gan arholwyr mewnol. Dylid dangos y marciau a ddyfarnir ar gyfer pob ateb yn glir ar y papur a dylid cynnwys sylwadau'n adlewyrchu pam y dyfarnwyd marciau penodol.

Dylid cytuno ar sampl o bapurau a gynhwyswyd wrth bennu dosbarth y graddau i gael eu marcio ddwywaith ('marcio dwbl'), h.y. cael eu marcio gan ddau arholwr mewnol.

Mae safoni defnydd asesu'n fewnol gan staff canolfan gydweithredol yn bwysig i sicrhau bod arholwyr yn defnyddio'r meini prawf marcio (gweler isod) mewn ffordd gyson, a bod dealltwriaeth o'r safonau academiaidd y disgwylir i fyfyrwyr eu cyflawni yn cael ei rhannu. Yn ogystal, lle'n bosibl ac yn ymarferol, dylai canolfannau cydweithredol gadw anhysbysedd myfyrwyr yn ystod y broses farcio fewnol. Dylai'r broses farcio fewnol gynnwys ffurf ar ail farcio neu safoni (gweler Pennod 7 Marcio Asesiadau: Sut i gael y canlyniadau iawn).

Pan fydd y marcio wedi ei gwblhau dylid dychwelyd y papurau ateb at gyfarwyddwr y cwrs neu arweinydd y rhaglen. Mae'n ofynnol bod arholwyr yn tynnu sylw at unrhyw bapurau sy'n peri problemau, er enghraifft, y rhai hynny sydd ar y ffin o ran dosbarthiad, methiannau a'r rhai dan amheuaeth o anghysondebau neu amheuaeth o unrhyw arfer annheg.

Rôl arholwyr allanol

Mae arholwyr allanol, fel arbenigwyr pwnc cydnabyddedig, yn chwarae rôl ganolog yn y broses o gymeradwyo asesiadau, a bydd y Brifysgol yn dibynnu ar eu dyfarniadau nhw am sicrwydd bod yr asesiad o berfformiad myfyrwyr yn gadarn, yn ddibynadwy ac o safon sy'n cyd-fynd â rhaglenni cyfatebol mewn sefydliadau addysg uwch yn y DU.

Wrth gyflawni'r rôl hon, mae arholwyr allanol yn chwilio am dystiolaeth sy'n dangos:

- bod asesiadau modiwlau unigol yn cwmpasu canlyniadau dysgu'r modiwl yn briodol a, gyda'i gilydd, y rhaglen gyflawn;
- bod yr asesiadau ar lefel briodol i'r rhaglen dan sylw.

Mae arholwyr allanol felly'n chwarae rhan bwysig fel ceidwaid safonau academiaidd dyfarniadau'r Brifysgol. Yn benodol, mae'r Brifysgol yn disgwyl i arholwyr allanol arwain i sicrhau:

- bod y safonau a osodir ar gyfer dyfarniad yn parhau'n briodol i'r cymhwyster penodol;
- bod y safonau cyffredinol o berfformiad myfyrwyr yn cyfateb i'r hyn a geir mewn rhaglenni neu ddisgyblaethau tebyg mewn sefydliadau addysg uwch eraill yn y DU y maent yn gyfarwydd â nhw;
- bod y prosesau asesu, arholi a phennu dyfarniadau'n cael eu cyflawni'n gadarn ac yn deg.

Yn y cyd-destun hwn mae arholwyr allanol yn chwarae rôl allweddol ym mhrosesau'r Brifysgol ar gyfer cymeradwyo asesiadau.

Sicrhau safonau: Gofynion sylfaenol y Brifysgol ar gyfer cymeradwyo asesiadau

Mae'n bwysig pwysleisio ei bod yn un o'r rhagofynion gorfodol ar gyfer caniatáu i asesiadau myfyrwyr gael eu cynnal bod arholwyr allanol wedi cymeradwyo asesiadau o flaen llaw. Rhaid cyflwyno asesiadau ailsefyll cytras ar yr un pryd â'r prif asesiad dan sylw

Dylai canolfannau cydweithredol nodi na fydd y Brifysgol yn caniatáu cynnal asesiad sy'n cyfrannu at ddyfarniad terfynol os nad yw'r asesiad dan sylw wedi derbyn cymeradwyaeth gan yr arholwr/wyr allanol. Mae'n dilyn bod methu â chydymffurfio â'r prosesau a ddisgrifir yn y ddogfen hon yn golygu y bydd y Brifysgol yn atal ei chaniatâd i gynnal asesiad ac y bydd yn gwrthod caniatáu i fwrdd arholi gael ei gynnal. Yn ôl ei disgresiwn, gall y Brifysgol gymryd camau gweithredu os na fydd canolfan yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn.

Dylai canolfannau hefyd nodi y bydd defnyddio asesiadau nad ydynt wedi derbyn cymeradwyaeth o flaen llaw gan yr arholwr/wyr allanol ar gyfer unrhyw raglen yn gosod eu myfyrwyr mewn sefyllfa lle gallai fod gofyn iddynt ymgymryd ag asesiadau ychwanegol (h.y. wedi'u cymeradwyo) gydag unrhyw farciau a enillir drwy'r broses asesu nad yw wedi'i chymeradwyo'n cael eu dileu.

Amlinellir y broses cymeradwyo asesiadau ym Mhennod 6 y ddogfen hon – Cymeradwyo Asesiadau: Sut i gael cymeradwyaeth.

3. STRATEGAETHAU ASESU : Sut i asesu'n effeithiol – Cyffredinol

Mae'r bennod ganlynol yn amlinellu'r berthynas rhwng canlyniadau dysgu a datblygiad asesiadau. Mae hefyd yn rhoi golwg gyffredinol ar yr wybodaeth sydd ei hangen er mwyn gosod asesiadau ar gyfer y lefel briodol o astudiaeth.

Canlyniadau asesu a dysgu

Fel arfer mae canlyniadau dysgu'n generig o ran fformat ac yn amlygu cyflawniadau disgwylidig ymgeisydd ar gwblhau'r modiwl yn llwyddiannus. Caiff eu cyflawniad ei hwyluso gan gyflenwad y modiwl, ac felly maent yn perthyn i'r cyd-destun y cânt eu cyflenwi ynddi gan staff addysgu.

Mae canlyniadau dysgu'n cysylltu'n uniongyrchol â lefel yr astudiaeth, a dylent ddangos datblygiad y myfyriwr wrth iddo symud yn ei flaen trwy'r rhaglen. Er enghraifft, dylai cynnydd myfyrwyr mewn modiwl:

Ddangos gwybodaeth o'r pwnc → Defnyddio a gwerthuso'r pwnc → Integreiddio a chyfuno gwybodaeth a sgiliau


Mae canlyniadau dysgu'n amlinellu pum maes gwahanol i'w hystyried gan staff wrth addysgu a datblygu asesiadau ar gyfer y modiwl:

- i) Gwybodaeth a dealltwriaeth (penodol i'r pwnc)
- ii) Sgiliau gwybyddol/deallusol (generig)
- iii) Sgiliau allweddol/trosglwyddadwy (generig)
- iv) Sgiliau ymarferol (penodol i'r pwnc)
- v) Sgiliau proffesiynol/cyflogaeth.

Dylai asesiadau gysylltu'n uniongyrchol â'r canlyniadau dysgu ar gyfer y modiwl a nodwyd ym manyleb y rhaglen a ddilyswyd. Dylid dewis y canlyniadau dysgu allweddol ar gyfer pob asesiad, a dylid eu caboli ymhellach yng nghyd-destun cyflenwi a dysgu'r modiwl.

Cysylltu strategaethau asesu modiwl a rhaglen

Mae cynllun rhaglenni modwlar yn awgrymu bod modiwlau'n cyfrannu at ganlyniadau dysgu cyffredinol y rhaglen ehangach. I'r graddau hyn, mae pob aseiniad yn cael ei gysoni â'r canlyniad dysgu modwlar, sydd wedi ei gysylltu'n gynhenid â chanlyniad dysgu ehangach, ac o chwith, mae pob asesiad y bydd myfyriwr yn ei sefyll, yn dod yn arwydd o gwrdd â chanlyniadau dysgu'r modiwl, ac o ganlyniad, â chanlyniadau dysgu ehangach y rhaglen:



Mae'r diagram uchod yn dangos ei bod yn hollbwysig bod staff yn deall sut mae canlyniadau dysgu'n rhyng-gysylltu'r gwahanol rannau o'r rhaglen ehangach. Mae'n hanfodol felly i sicrhau bod asesiadau'n parhau i fod yn ddilys, nid yn unig o fewn y modiwl, ond hefyd o fewn cyd-destun ehangach y rhaglen o astudiaeth.

Er mwyn sicrhau bod y canlyniadau dysgu priodol yn cael eu cynnwys yng nghynllun asesiad, dylai athro ddechrau trwy gysylltu'r canlyniadau dysgu arfaethedig rhwng lefel y rhaglen a'r modiwl. Dylai pob asesiad roi cyfle i fyfyrwyr ddangos sut maent yn cwrdd â chanlyniadau dysgu modiwl penodol. Unwaith mae canlyniadau dysgu'r asesiad wedi cael eu dethol yn briodol, dylid dewis ffurf addas ar asesiad. Dylai datblygiad yr asesiad dynnu ar y defnydd a gafodd sylw yn yr ystafell ddosbarth, a dylid ei adeiladu mewn modd sy'n sicrhau bod myfyrwyr yn deall pa ffurfiau ar eu dysgu sy'n cael eu hasesu, a hefyd dylai roi cymorth iddynt gyflawni'r canlyniadau gofynnol.

Er mwyn sicrhau bod asesiadau'n adlewyrchu'r canlyniadau dysgu arfaethedig yn gywir, dylai staff geisio llunio ymateb enghreifftiol i'r cwestiwn a osodir. Yna dylid mapio'r ateb mewn perthynas â chanlyniadau dysgu arfaethedig yr asesiad er mwyn asesu pa mor briodol ydyw.

Adlewyrchu'r lefel academiaidd cywir

Mae rhaglenni academiaidd y Brifysgol yn seiliedig ar [Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch](#) (y Fframwaith) y DU, a gyhoeddir gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Mae'r Fframwaith yn diffinio cymwysterau a rhaglenni'r DU yn nhermau lefelau academiaidd.

Mae rhaglenni israddedig ac ôl-raddedig y Brifysgol yn seiliedig ar lefelau canlynol y Fframwaith.

Lefel	Cymhwyster	
8	Graddau Doethur	E.e. PhD, DPhil, doethuriaethau proffesiynol
7	Graddau Meistr	Hefyd Diplomâu Ôl-raddedig a Thystysgrifau Ôl-raddedig
6	Graddau Baglor	Hefyd Diplomâu Graddedig a Thystysgrifau Graddedig Blwyddyn olaf gradd Baglor
5	Graddau sylfaen Diplomâu Cenedlaethol Uwch	Diplomâu Addysg Uwch Ail flwyddyn gradd Baglor amser llawn
4	Tystysgrifau Cenedlaethol Uwch	Tystysgrifau Addysg Uwch Blwyddyn gyntaf gradd Baglor amser llawn
3	Pre-Bachelor degree foundation courses	Cyrsiau sylfaen cyn gradd Baglor

Bydd angen i ganlyniadau dysgu modiwlau adlewyrchu'r lefel y mae'r modiwl wedi ei gynllunio ar ei chyfer (ac y bydd wedi cael ei gyflenwi).

Mae'r agwedd bwysicaf ar hyn yn ymwneud â'r union ofynion deallusol a gwybyddol sy'n adlewyrchu'r lefel y lleolir y modiwlau arnynt. Ffordd gyffredin o ystyried hyn yw defnyddio tacsonomi fel yr un a ddefnyddir gan Bloom (1956) neu Anderson a Krathwohl (2001) i ddisgrifio'r gofynion hyn.³

Mae defnyddio tacsonomi Anderson a Krathwohl ar gyfer y lefelau uchod yn awgrymu'r perthnasau canlynol:

Lefel academiaidd	Sgiliau gwybyddol
-------------------	-------------------

³ B.S. Bloom, *Taxonomy of Education Objectives*, Efrog Newydd, 1956; L.W. Anderson a D.R. Krathwohl (gol.), *A taxonomy for learning, teaching, and assessing: a revision of Bloom's Taxonomy of Educational Objectives*, Efrog Newydd, 2001.

Cynyddu lefel academaidd ↑ Lefel 3	Creu
	Gwerthuso
	Dadansoddi
	Defnyddio
	Deall
	Cofio

Mae hyn yn awgrymu y bydd canlyniadau dysgu, ac asesiadau cysylltiedig, ar fodiwlau lefel 3 neu lefel 4 yn ymwneud yn bennaf â chofio a deall ffeithiau, tra bydd y rhai ar lefelau uwch yn canolbwyntio mwy ar ddefnyddio gwybodaeth, gwerthuso ffeithiau a syniadau, a defnyddio sgiliau meddwl beirniadol i ddatrys problemau.

Defnydd cywir o iaith

Bydd yr iaith a ddefnyddir ar gyfer canlyniadau dysgu (ac asesiadau) yn amlwg yn offeryn pwysig a fydd yn ein helpu i'w lleoli ar y lefel academaidd priodol. Bydd y berfau sy'n cael eu defnyddio i ddiffinio'r hyn y mae disgwyl i fyfyrwyr ei wneud neu ei gyflawni yn allweddol.

Mae'r tabl isod yn rhestru rhai termau cyffredin a ddefnyddir i ddatblygu canlyniadau dysgu ac asesiadau cysylltiedig. Mae'r tabl hefyd yn dangos sut y gall y rhain fod yn berthnasol i ganlyniadau dysgu ac asesiadau mewn rhaglen gradd Baglor nodweddiadol.

<i>Sgil gwybyddol</i>	<i>Rhai termau addas ar gyfer canlyniadau dysgu ac asesiadau</i>	<i>Sut y gallant fod yn berthnasol mewn gradd Baglor</i>
Creu	Cynllunio, dadansoddi'n feirniadol, cyfiawnhau, dewis, argymell, damcaniaethu, adolygu	Lefel 6
Gwerthuso	Casglu, tarddu, dosbarthu, olrhain, gosod allan, cynnig, crynhoi	
Dadansoddi	Dadansoddi, cymharu, ymchwilio, penderfynu, categoreiddio, chwilio	
Defnyddio	Defnyddio, dangos, cysylltu, datblygu, trosglwyddo, esbonio, arfer	Cynyddu trwy lefel 5
Deall	Egluro, rhagddweud, rhoi enghreifftiau o, rhyngosod, trosi	
Cofio	Disgrifio, diffinio, nodi, enwi, rhestru, ysgrifennu, mesur, adnabod cofnod	 Lefel 4

Mae hyn yn golygu, mewn gradd Baglor nodweddiadol, y bydd canlyniadau dysgu ac asesiadau cysylltiedig ar lefel 4 yn tueddu i ddefnyddio iaith a fydd ar ffurf:

“Disgrifiwch (e.e. ffaith). . . .”, neu

“Esboniwch (e.e. damcaniaeth) . . .”.

Fodd bynnag, bydd yr iaith ar gyfer canlyniadau dysgu neu asesiadau ar lefel 6 yn fwy tebygol o fod ar ffurf:

“Cynlluniwch (e.e. datrysiaid i broblem)”, neu

“Dewiswch (e.e. o ddetholiad amrywiol)”⁴

Gellir hefyd cyfleu'r datblygiad cynyddol hwn ar draws tair lefel rhaglen gradd Baglor yn nhermau pa alluoedd mae'r myfyriwr yn meddu arnynt ar bob lefel. Mae'r tabl canlynol yn cynnwys rhan o'r Fframwaith sy'n ymwneud a galluoedd myfyrwyr gradd Baglor ar y tair lefel.

Ar lefel 4 mae myfyrwr yn dangos:	- Gwybodaeth o'r cysyniadau ac egwyddorion sylfaenol - Y gallu i werthuso a dadansoddi'r cysyniadau ac egwyddorion hyn - Y gallu i gyflwyno, gwerthuso a dadansoddi data meintiol ac ansoddol - Y gallu i ddatblygu trywydd dadl a gwneud dyfarniadau cadarn
Ar lefel 5 mae myfyrwr yn dangos:	- Gwybodaeth a dealltwriaeth feirniadol o'r prif gysyniadau ac egwyddorion yn eu maes - Y gallu i ddefnyddio cysyniadau ac egwyddorion y tu hwnt i'r cyddestun y cawsant eu hastudio ynddo - Gwybodaeth o'r prif ddulliau ymchwil yn eu maes - Y gallu i werthuso'n feirniadol pa mor briodol yw gwahanol ddulliau o ddatrys problemau - Dealltwriaeth o gyfyngiadau eu gwybodaeth
Ar lefel 6 mae myfyrwr yn dangos:	- Dealltwriaeth systematig o agweddau allweddol yn eu pwnc - Gwybodaeth gydlynol a manwl, y mae o leiaf rhan ohoni'n ymwneud yn bennaf â gwybodaeth o'r pwnc - Y gallu i ddefnyddio technegau dadansoddi ac ymchwilio profedig yn gywir - Dealltwriaeth gysyniadol sy'n galluogi myfyriwr i: ddyfeisio a chynnal dadleuon a datrys problemau y mae rhai ohonynt yn ymwneud yn bennaf â phwnc, a disgrifio a gwneud sylwadau ar agweddau ar ymchwil gyfredol neu ysgolheictod uwch mewn pwnc - Gwerthfawrogiad o ansicrwydd, amwysedd a chyfyngiadau gwybodaeth - Y gallu i reoli eu dysgu eu hunain ac i ddefnyddio adolygiadau ysgolheigaidd a ffynonellau sylfaenol fel erthyglau ymchwil wedi eu canoli a defnydd gwreiddiol.

Felly, wrth i fyfyrwyr fynd yn eu blaenau trwy dair lefel rhaglen gradd Baglor, cânt eu hannog i ddatblygu eu sgiliau gwybyddol lefel uwch eu hunain wrth iddynt fynd o un lefel y rhaglen i'r llall, h.y. symud o gofio ffeithiau (ar lefel 4) i werthusiad beirniadol a chreadigrwydd (ar lefel 6).

O ganlyniad, gofyniad parhaus gan arholwyr allanol y Brifysgol yw bod myfyrwyr ar lefel 6 mewn rhaglen gradd Baglor (neu ar lefel 7 mewn rhaglen gradd Meistr) yn gallu dangos y lefelau uwch hyn o sgiliau gwybyddol yn eu sgriptiau arholiad, gwaith cwrs, prosiectau ac adroddiadau aseiniad, a chyflwyniadau.

Mae arholwyr am i asesiadau ar y lefelau hyn fod yn drwyadl eu ffurf ac yn heriol yn ddeallusol o ran cynnwys. Mae'n bwysig felly bod staff addysgu mewn canolfannau cydweithredol yn datblygu eu strategaethau addysgu / dysgu ac asesu i annog datblygu'r sgiliau gwybyddol uwch hyn, yn arbennig ar lefel 6 a lefel 7.

⁴ Gyda'r enghraifft olaf “Dewiswch”, byddai'n arferol i asesiad o'r fath ofyn i ymgeisydd gyfiawnhau ei ddewis.

Cysylltu hyn â meini prawf asesu

Fel y nodwyd uchod, mae angen adlewyrchu'r egwyddor hon o ddatblygiad graddol sgiliau gwybyddol uwch dros dair lefel gradd Baglor yn yr iaith a ddefnyddir ar gyfer canlyniadau dysgu ac asesiadau cysylltiedig.

Ar yr un pryd, bydd angen i'r meini prawf a ddefnyddir ar gyfer yr asesiadau hynny gael eu datblygu ar ffurf gyfatebol sy'n adlewyrchu her berthynol y dasg / tasgau asesu.

Mae'r tablau canlynol yn dangos sut y gellir datblygu meini prawf asesu ar draws tair lefel rhaglen gradd Baglor. Mae'r enghraifft hon yn seiliedig ar feini prawf y gellid eu dewis i asesu aseiniad neu adroddiad prosiect.

Mae'r tabl cyntaf yn dangos meini prawf enghreifftiol ar gyfer asesu cynnwys cyffredinol adroddiad o'r fath.

Dosb. / Marc	Meini prawf asesu ar gyfer <u>cynnwys</u> adroddiad prosiect		
	Lefel 4	Lefel 5	Lefel 6
1 70 - 100	Defnydd a thrafodaeth ragorol o'r prif faterion	Gwerthusiad beirniadol a chyfuniad o faterion sy'n cynnwys rhywfaint o feddwl gwreiddiol a myfyriol	Gwerthusiad beirniadol craff a chyfuniad o faterion sy'n dangos ymagwedd wreiddiol a myfyriol
2.1 60 - 69	Defnydd a thrafodaeth fanwl o'r prif faterion	Gwerthusiad a chyfuniad o'r prif faterion	Gwerthusiad beirniadol a chyfuniad o brif faterion sy'n dangos rhywfaint o wreiddioldeb
2.2 50 - 59	Defnydd rhesymol gyda rhywfaint o drafodaeth o'r prif faterion	Disgrifiad cywir o'r prif faterion gyda rhywfaint o werthuso cyfyngedig	Gwerthusiad beirniadol a chyfuniad o brif faterion
3 40 - 49	Disgrifiad o'r prif faterion heb drafodaeth	Disgrifiad o'r prif faterion heb drafodaeth	Gwerthusiad cyfyngedig a chyfuniad o'r prif faterion
Methu 0 - 39	Hepgor defnydd perthnasol	Hepgor defnydd perthnasol	Hepgor defnydd perthnasol

Yn yr un modd gellir datblygu meini prawf graddedig ar gyfer agweddau eraill ar adroddiad prosiect megis gwybodaeth a dealltwriaeth, casglu data, dadansoddi, tystiolaeth o ddarllen etc.

Mae'r tabl isod yn rhoi enghraifft o'r meini prawf y gellid eu defnyddio i asesu defnydd ymgeisydd o ddamcaniaeth mewn adroddiad o'r fath.

Dosb. / Marc	Meini prawf asesu ar gyfer <u>defnyddio damcaniaeth</u> mewn adroddiad prosiect		
	Lefel 4	Lefel 5	Lefel 6
1 70 - 100	Tystiolaeth o ddefnydd manwl a pherthnasol o ddamcaniaeth	Tystiolaeth o ddefnydd manwl a pherthnasol o ddamcaniaeth a/neu ganlyniadau empirig	Tystiolaeth helaeth o ddefnydd craff o ddamcaniaeth a/neu ganlyniadau empirig
2.1 60 - 69	Tystiolaeth o ddefnydd priodol o ddamcaniaeth	Tystiolaeth o ddefnydd priodol o ddamcaniaeth a/neu ganlyniadau empirig	Tystiolaeth o ddefnydd meddylgar o ddamcaniaeth a/neu ganlyniadau empirig

2.2	50 - 59	Tystiolaeth gyfyngedig o ddefnydd o ddamcaniaeth	Tystiolaeth achlysurol o ddefnydd o ddamcaniaeth	Tystiolaeth helaeth o ddefnydd o ddamcaniaeth
3	40 - 49	Tystiolaeth gyfyngedig iawn o ddefnydd o ddamcaniaeth	Tystiolaeth gyfyngedig o ddefnydd o ddamcaniaeth	Tystiolaeth gyfyngedig o ddefnydd o ddamcaniaeth
Fail	0 - 39	Dim tystiolaeth o ddefnydd o ddamcaniaeth	Dim tystiolaeth o ddefnydd o ddamcaniaeth	Dim tystiolaeth o ddefnydd o ddamcaniaeth

Yn Atodiad B ceir amlinelliad manylach o feini prawf marcio y gall canolfannau eu defnyddio fel pwynt cyfeirio er mwyn datblygu eu meini prawf eu hunain.

4. DULLIAU ASESU: Sut i asesu'n effeithiol - Manylion

Mae'r bennod ganlynol yn amlinellu prif nodweddion gwahanol ddulliau asesu. Dylid defnyddio hwn yn unol â Phennod 11.

Trosolwg o'r dulliau asesu

Mae amrywiaeth o ddulliau asesu y gellir eu defnyddio, a fydd wedi cael eu gorchymyn gan ddisgyblaeth yr astudiaeth, yn ogystal â dilysiad cychwynnol y rhaglen. Mae'r bennod ganlynol yn ymchwilio'r rhain, yn ogystal â'r ffyrdd gorau o sicrhau bod safonau'n cael eu sicrhau ym mhob un o'r dulliau.

Defnyddir dau ddull asesu sydd wedi eu crybwyll yn barod –ffurfiannol a chyfansymiol – i gyfrannu at ddatblygu dealltwriaeth myfyriwr o bwnc, yn ogystal ag arwain at radd sy'n cyfrannu at ddyfarniad.

Defnyddir dulliau ffurfiannol yng nghanol astudiaeth a chânt eu nodweddu gan y canlynol:

- bod myfyrwyr yn deall yr hyn maent i fod i'w ddysgu a'r hyn sy'n ddisgwyliedig ganddynt;
- bod myfyrwyr yn derbyn adborth sy'n eu hysbysu am ansawdd eu gwaith neu eu perfformiad;
- bod myfyrwyr yn derbyn cyngor ar sut y gallant wella;
- bod myfyrwyr yn cael eu cynnwys yn eu gweithgareddau dysgu eu hunain.⁵

Ar y llaw arall defnyddir dulliau cyfansymiol ar ddiwedd pob modiwl gan amlaf a chânt eu nodweddu gan y canlynol:

- bod myfyrwyr yn dangos hyd a lled eu gallu i gwrdd â chanlyniadau dysgu'r modiwl;
- bod myfyrwyr yn derbyn adborth ar eu gallu i gwrdd â'r canlyniadau dysgu arfaethedig;
- bod myfyrwyr yn deall sut mae'r hyn maent yn ei ddysgu yn y modiwl yn cyfrannu at ddealltwriaeth ehangach o'r rhaglen.

Prif nodweddion gwahanol ddulliau

Mae'r adran ganlynol yn amlinellu prif nodweddion y gwahanol ddulliau asesu. Ceir gwybodaeth bellach ym Mhennod 9 y ddogfen hon hefyd – Canllawiau ar ddulliau asesu.

Arholiadau

Arholiadau heb eu gweld yw'r ffurf fwyaf traddodiadol o asesu cyfansymiol a'r un a ddefnyddir amlaf. Maent o hyd amrywiol yn dibynnu ar lefel yr astudiaeth ac yn cyfrif tuag at y dyfarniad terfynol. Mae'r ffurf yn gofyn bod yr ymgeisydd yn adolygu cynnwys y modiwl yn helaeth ac wedyn yn cyflwyno'r hyn mae wedi ei ddysgu'n ysgrifenedig mewn ymateb i set o gwestiynau anhysbys.

Wrth ddefnyddio'r ffurf draddodiadol hon, cydnabyddir bod nifer o fanteision ac anfanteision cynhenid i ddefnyddio arholiadau heb eu gweld.

Mae'r manteision yn cynnwys, *inter alia*:

- Maent yn sicrhau bod myfyrwyr yn cael cyfle cyfartal i gwblhau'r un dasg yn yr un ffordd o fewn terfyn amser penodol.
- Maent yn lleihau cyfleoedd am lèn-ladrad trwy arsylwad a chynllun lleoliad yr arholiad.
- Maent yn annog myfyrwyr i ymgysylltu'n llawn â defnydd y modiwl wrth baratoi ar gyfer yr asesiad.

Mae'r anfanteision yn cynnwys, *inter alia*:

- Mae cwblhau'r asesiad yn ddibynnol ar dechneg y myfyriwr ar gyfer cynllunio ac ysgrifennu'n ddarllenadwy.

⁵ Jo-Anne Baird, Therese N. Hopfenbeck, Paul Newton, Gordon Stobart, ac Anna T. Steen-Utheim, *State of the Field Review Assessment and Learning*, Oslo, 2014.

- Dim ond rhannau penodol o wybodaeth myfyriwr y gall yr asesiad ei ymchwilio yn hytrach na'i wybodaeth gyfan.
- Darperir adborth yn anaml iawn, yn arbennig mewn sefyllfa gyfansymiol.

Gwaith cwrs

Mewn llawer o ddisgyblaethau ysgrifennu traethodau yw rhan flaenaf gwaith cwrs ac mae'n ffurf draddodiadol ar asesu sy'n rhoi cyfle i ymgeiswyr ysgrifennu adroddiadau, ffurfio achosion busnes ac sy'n eu paratoi ar gyfer prosiectau mwy fel traethodau hir. Mae gwaith cwrs yn gofyn bod ymgeiswyr yn ymgymryd ag ymchwiliad annibynnol o'r maes pwnc, yn datblygu eu sgiliau ymchwil a'u hymrwymiad i drafodaeth academaidd.

Mae'r manteision yn cynnwys, *inter alia*:

- Cyfle i ddangos myfyrdod, gwerthusiad beirniadol ac ymrwymiad i'r maes pwnc
- Cyfle i ddangos dyfnder deallusrwydd unigol o bwnc, yn ogystal â chyfle i ddangos ymagwedd unigol myfyriwr tuag at y pwnc.

Mae'r anfoneision yn cynnwys, *inter alia*:

- Gall marcio asesiad fod yn oddrychol, ac weithiau gall techneg ymgeisydd fod yn drech na sylwedd.
- Gall fod yn anodd gwarantu mai gwaith y myfyriwr yw'r gwaith sydd wedi ei gyflwyno.

Gwaith ymarferol neu waith maes

Gall asesiadau ymarferol ac asesiadau gwaith maes ddigwydd o fewn nifer o wahanol ddisgyblaethau, ond yn arbennig mewn disgyblaethau sy'n ymwneud â gwyddoniaeth, gwyddor bywyd, a'r celfyddydau. Mae amrywiaeth y dulliau a ddefnyddir ar gyfer y maes penodol hwn o asesu yn cael ei orchymyn yn aml gan ddisgyblaeth yr astudiaeth a fydd yn cael ei amlinellu'n fwy cynhwysfawr yn y datganiadau meincnodi pwnc ar gyfer y ddisgyblaeth. Gellir estyn gwaith maes hefyd i gynnwys gweithgareddau ar leoliad sy'n trochi ymgeiswyr yn agweddau galwedigaethol y rhaglen o astudiaeth.

Mae'r manteision yn cynnwys, *inter alia*:

- Datblygiad clir o sgiliau sy'n berthnasol i gyflogaeth.
- Posibilrwydd o gael adborth amser real.
- Darparu cyfle i gysylltu gwybodaeth brofiadol â gwybodaeth ddamcaniaethol.

Mae'r anfoneision yn cynnwys, *inter alia*:

- Gall asesiadau ganolbwyntio ar y cynnyrch terfynol (neu'r corff o waith) yn hytrach na'r broses.
- Efallai bydd angen gwaith cydweithredol gan grŵp, gan wneud y gwaith o asesu cyfraniad unigol yn anodd.
- Gall bod yn destun goruchwyliaeth arwain at effaith negyddol ar berfformiad ymgeiswyr.

Cyflwyniadau a phortffolios

Mae cyflwyniadau a phortffolios yn dod yn asesiadau sy'n cael eu harwain gan dystiolaeth, lle gall ymgeiswyr greu arteffactau sy'n cynnwys myfyrdodau ar bwnc a ddewisir gan yr unigolyn. Fel arfer bydd cyflwyniadau'n cynnwys digwyddiad lle caiff gwaith ei ddangos i gynulleidfa o fyfyrwyr neu staff addysgu gyda chymorth tafluniadau a/neu daflenni. Gellir arddangos portffolios a gall ymgeiswyr ddewis darparu dadansoddiad neu gyfrif ysgrifenedig neu ar lafar ar eu cyfer i aseswyr.

Mae'r manteision yn cynnwys, *inter alia*:

- Gall roi cyfle i fyfyrwyr ddangos sut maent yn cwrdd ag ystod eang o ganlyniadau dysgu.
- Gall roi cyfle i fyfyrwyr wneud cysylltiad 'byd real' gyda golwg ar gyflogaeth.
- Gall ddenu myfyrwyr i ymgysylltu â phwnc mewn modd uwch.

Mae'r anfoneisïon yn cynnwys, *inter alia*:

- Gall fod yn anodd asesu'r ddau yn wrthrychol.
- Weithiau ceir amheuaeth am berchnogaeth y gwaith.
- Gall y gwaith o baratoi a gwerthuso gymryd llawer o amser i bawb.

Asesiad a arweinig gan ymarfer

Mae pynciau sy'n seiliedig ar ymarfer yn rhoi cyfle i ymgeiswyr ddangos eu sgiliau creadigol. Gall ymateb ymgeisydd i ddogfen neu ddadansoddiad annog agweddau ar y ffurfiau hyn o asesu a byddai'n cynnwys gweithio mewn amryw o gyfryngau gyda dewis amrywiol o ddefnyddiau. Bydd y daith greadigol, datblygiad a'r corff gwaith terfynol yn cael eu hystyried at ddibenion asesu.

Mae'r manteisïon yn cynnwys, *inter alia*:

- Mae'n caniatáu mabwysiadu dulliau creadigol iawn.
- Mae'n cymryd agwedd holistaidd tuag at asesu ymgeiswyr.
- Mae'n annog ymgeiswyr i gymryd risgiau.

Mae'r anfoneisïon yn cynnwys, *inter alia*:

- Gellir ond ei ddefnyddio mewn disgyblaethau penodol.
- Gall fod yn anodd penderfynu ar ganlyniadau dysgu.
- Gall ofyn am ddefnydd dwys o adnoddau.

Gwaith grŵp

Gall asesu gwaith grŵp fod yn ffordd effeithiol o hwyluso dysgu ac asesu mewn modiwl. Gall asesiadau grŵp fod yn ddeublyg, nid yn unig yn gwerthuso'r cynnyrch terfynol, ond hefyd y broses gydweithredol sy'n arwain at y cyflwyniad terfynol. Gall asesiadau grŵp for ar sawl ffurf, gan gynnwys cyflwyniadau, portffolios, posterï neu adroddiadau.

Mae'r manteisïon yn cynnwys, *inter alia*:

- Mae'n paratoi myfyrwyr ar gyfer cyflogaeth trwy ddatblygu sgiliau cymdeithasol a dulliau cydweithredol o weithio.
- Mae'n rhoi mwy o gyfle i fyfyrwyr arwain eu dysgu eu hunain trwy ymrwymo fwyfwy â'r pwnc gyda chymheiriaid.
- Gall gynnwys asesu nifer o ganlyniadau dysgu ar yr un pryd.

Mae'r anfoneisïon yn cynnwys, *inter alia*:

- Gall fod yn anodd monitro cyfraniad unigol.
- Mae angen rhoi cyfarwyddyd eglur a strwythuredig ynghylch yr hyn sy'n cael ei asesu a sut y bydd yn cael ei asesu.
- Gall fod yn anodd ymrwymo grwpiau o fyfyrwyr yn y gweithgaredd dysgu o'r dechrau.

Asesu gan gymheiriaid a hunanasesu

Mae asesu gan gymheiriaid a hunanasesu yn ddwy ffurf ar asesu sy'n caniatáu myfyrdod gan fyfyrwyr yn unigol ac fel grŵp. Gall y ddwy ffurf fod yn fuddiol wrth ddatblygu dysgwyr annibynnol, myfyriol, ond mae angen rheoli a strwythuro gofalus er mwyn lliniaru sefyllfaoedd negyddol neu wrthdrawiadol. Mae asesu gan gymheiriaid yn arwain yn anorfod at hunanasesu os yw tasg yn cael ei rhannu, gan hogi'r gallu i feddwl yn feirniadol a dyfarniadol.

Mae'r manteisïon yn cynnwys, *inter alia*:

- Mae'n datblygu agweddau disgybledig tuag at ddysgu a datblygu a gyfeirir gan yr unigolyn, o fewn fframwaith myfyriol.
- Mae'n datblygu prosesau hunanymwybyddiaeth a dyfarniad beirniadol.
- Mae'n datblygu'r gallu i roi a derbyn adborth.

Mae'r anfoneision yn cynnwys, *inter alia*:

- Efallai na fydd meini prawf ar gyfer asesu bob amser wrth wraidd cwricwlwm y modiwl, a gan hynny'n methu canlyniadau dysgu modiwlau penodol.
- Yn aml bydd yn herio staff i newid arferion dysgu sefydledig er mwyn dod yn hwylusydd dysgu, a all fod angen hyfforddiant dwys.

Gellir hefyd cyfuno asesiadau gan gymheiriaid gydag asesiadau grŵp, gan roi cyfle i adborth sy'n codi o asesu gan gymheiriaid gyfrannu at y marciau cyffredinol a neilltuir i waith grŵp.

Asesu ar-lein

Mae angen defnyddio technoleg gyfrifiadura i ymgymryd ag arholiadau er mwyn asesu ar-lein. Gellir gosod cwestiynau'n benodol ar gyfer carfan gyfan, neu gellir eu dewis ar hap o gronfa o gwestiynau sydd eisoes wedi'i sefydlu, ac a gânt eu dyrannu wedyn gan raglen gyfrifiadurol. Mae ymgeiswyr yn cwblhau'r arholiad a chyflwyno'r ffurflenni wedi'u cwblhau, y gellir eu marcio wedyn gan gyfrifiadur neu gan athro'r modiwl.

Mae'r manteision yn cynnwys, *inter alia*:

- Gellir gwneud asesiadau 'ar gais' er mwyn cefnogi astudio hyblyg.
- Gall nifer o aelodau o staff rannu'r gwaith o ddatblygu cwestiynau.
- Gall asesiadau gynnwys agweddau amlgyfrwng nad ydynt ar gael trwy fformat papur yn unig.

Mae'r anfoneision yn cynnwys, *inter alia*:

- Anhawster i sicrhau hunaniaeth yr ymgeiswyr sy'n cwblhau'r asesiad.
- Rhaid monitro caledwedd a meddalwedd yn fanwl i sicrhau na cheir methiant neu ymosodiad yn ystod y cyfnod asesu.
- Gall sefydlu asesiadau gymryd amser, ac mae'n gofyn am hyfforddiant helaeth.

Paru dulliau â modiwlau: Cyd-destun a chynnwys modiwlau

Mae nifer o ddisgyblaethau'n tynnu ar asesiad sydd wedi'i gysylltu'n annatod â'r cynnwys a addysgir o fewn y modiwl. Fodd bynnag, dylai staff dynnu ar gynlluniau asesu sy'n ymdrin â'r pwnc mewn ffordd greadigol, ac fe allant ddewis cynnwys dulliau arloesol i herio myfyrwyr gan ddibynnu ar y ddisgyblaeth. Er enghraifft, gellir ystyried gofyn am sgript ar gyfer rhaglen ddogfen ar fater penodol ar gyfer y teledu yn hytrach na thraethawd. Neu, gellir hwyluso trafodaeth yn y dosbarth, lle mae'n ofynnol bod myfyrwyr yn ysgrifennu adroddiad yn dilyn y digwyddiad.

Paru â modiwlau: Lefel modiwlau

Rhai o brif bryderon arholwyr yw bod yr hyn a ddysgir o fewn modiwl yn ddilys ac yn berthnasol i ganlyniadau dysgu'r rhaglen ehangach. I'r diben hwn, dylai athrawon sicrhau pan fyddant yn gosod asesiadau eu bod yn dechrau gyda manyleb y modiwl a manyleb y rhaglen, sy'n rhestru'r canlyniadau dysgu arfaethedig yn eglur ar gyfer y ddau. Dylai staff fyfyrwyr ar arferion cyfredol ym maes diwydiant, yn ogystal â datblygiadau o fewn eu disgyblaeth academiaidd er mwyn sicrhau bod y cynnwys a'r dull yn gyfredol.

Dylai staff hefyd fyfyririo ar y lefel y caiff yr asesiad ei osod arni. I'r diben hwn, bydd staff am ddefnyddio'r adran yn y bennod flaenorol 'Defnydd cywir o iaith' i sicrhau bod yr asesiad hefyd yn cael ei osod ar lefel briodol trwy ddefnyddio iaith addas o fewn cwestiynau.

Mae'n bwysig bod yr elfennau hyn i gyd yn cael eu hystyried wrth ddatblygu asesiadau, gan y byddant yn trwytho staff ynghylch yr hyn sy'n ddisgwyliedig gan asesiadau modiwl ar bob lefel a sut i'w cyflawni. Er enghraifft, ni fyddai'n briodol i asesiad cyfunol ar lefel chwech ddefnyddio cwestiynau dewis amrywiol, oni bai bod elfen gwmpasog gryf hefyd oedd yn gofyn bod ymgeiswyr yn esbonio'n llawn y rhesymeg y tu ôl i'w hateb.

5. MEINI PRAWF ASESU: Sut i wneud y broses asesu'n ddibynadwy

Mae'r bennod ganlynol yn adeiladu ar waith Pennod 3, yn ymchwilio datblygiad meini prawf asesu mewn perthynas â chanlyniadau dysgu.

Diffinio meini prawf asesu

Pan gaiff eitem o asesiad ei ddatblygu, dylid ei gysylltu bob amser â meini prawf asesu sy'n gwneud o leiaf dau beth:

- i) diffinio'r sgiliau a gwybodaeth (ac unrhyw briodoleddau eraill) sy'n cael eu hasesu yn yr eitem benodol honno;
- ii) diffinio'r lefel perfformiad y byddai angen i fyfyrwr ei bodloni er mwyn ennill marc pasio yn yr asesiad hwnnw.

Wrth ddiffinio meini prawf asesu, bydd yn bwysig bod meini prawf yn glir ynghylch lefelau'r perfformiad (gweler ii) uchod) sydd eu hangen ar gyfer pob band marc neu radd y gellir ei ddyfarnu o fewn y cynllun marcio diffiniedig. Gall maen prawf trothwy ddiffinio lefel perfformiad y marc pasio lleiaf (e.e. 40 %), ond byddai meini prawf gwahaniaethol yn cael eu defnyddio i farcio bandiau neu raddau uwch.

Er enghraifft mewn rhaglen israddedig, byddai'n briodol creu meini prawf asesu sy'n gysylltiedig yn benodol â dosbarthiadau dyfarniadau 1^{af}, 2:1, 2:2, 3^{ydd}, methu, etc.

Dangosir dwy enghraifft o feini prawf asesu yn Atodiad A ac Atodiad B. Mae Atodiad A yn cynnwys dyfyniad o Lawlyfr Graddau a Addysgir y Brifysgol ac yn diffinio meini prawf sy'n berthnasol ar lefel rhaglen. Mae Atodiad B yn dangos enghreifftiau o feini prawf y gellid eu defnyddio ar gyfer asesiad ar lefel modiwl.

Cysylltu meini prawf â chanlyniadau dysgu modiwl

Gall fod yn ddefnyddiol i feddwl am feini prawf asesu fel ffurf arall ar ganlyniad dysgu, neu fel canlyniad dysgu gyda dangosydd lefel perfformiad. Yn hyn o beth, mae meini prawf asesu'n diffinio pa mor dda mae 'n rhaid cyflawni canlyniad dysgu ar gyfer pob band marc neu radd.

Felly, bydd angen i feini prawf ar gyfer eitem asesiad penodol, er enghraifft, darddu o'r canlyniad (au) dysgu modiwl cyfatebol sy'n cael ei brofi yn yr arholiad hwnnw. Dylid nodi y dylai meini prawf asesu adlewyrchu pwnc, arddull a lefel academiaidd eitem benodol o asesiad. Er enghraifft, bydd meini prawf asesu sy'n ymwneud ag arholiad heb ei weld ar lefel 4 yn wahanol iawn i'r rhai ar gyfer cyflwyno gwaith prosiect ar lefel Meistr.

Mae angen diffinio canlyniadau dysgu a meini prawf asesu cysylltiedig cyn cyflenwi unrhyw addysgu neu asesu o fewn modiwl. Dylent fod ar gael i fyfyrwyr cyn iddynt ddechrau ar unrhyw dasgau asesu (yn ddelfrydol dylent dderbyn yr wybodaeth hon cyn iddynt ddechrau modiwl).

Cysylltu meini prawf â chanlyniadau dysgu rhaglen

Anghofir yn aml fod angen i feini prawf asesu hefyd gysylltu â chanlyniadau dysgu cyffredinol rhaglen. Gellir meddwl am hyn fel dimensiynau 'micro' a 'macro' asesiadau.

Gall micro-asesiad gyfeirio at rôl asesiad, a meini prawf asesu cysylltiedig, wrth asesu canlyniadau modiwl. Dyma yn anochel yw prif ffocws llawer o waith asesu, a'r un sydd fel arfer yn derbyn y mwyaf o sylw.

Fodd bynnag, mae ffocws eilaidd i asesiad hefyd, sef ceisio penderfynu ar y graddau gall myfyrwyr ddangos eu bod yn bodloni gofynion canlyniadau dysgu cyffredinol y rhaglen. Dyma yw dimensiwn macro asesiadau a'u meini prawf asesu cysylltiedig, ac mae'n ddiben yr un mor bwysig mewn asesiadau.

Yn amlwg, bydd cyfraniad eitem unigol o asesu at brofi canlyniadau dysgu rhaglen yn amrywio'n ddibynnol ar gwmpas, lefel a chymhlethdod y dasg neu'r tasgau asesu. Er enghraifft bydd prosiect mawr terfynol ar lefel 6 yn cyfrannu llawer mwy at asesiad o ganlyniadau dysgu rhaglen nac aseiniad lefel 4 sy'n cynrychioli 25 % o asesiad modiwl unigol.

Perthnasu marciau â meini prawf asesu

Gellir ystyried marciau fel estyniad naturiol o feini prawf asesu; h.y. fel fersiwn fwy manwl o'r meini prawf hynny.

Yn eu hanfod, mae marciau'n cael eu cysylltu ag elfennau unigol o'r asesiad a chaiff eu dyraniad ei ddiffinio gan y meini prawf asesu. Maent yn caniatáu gwahaniaethu rhwng lefelau o berfformiad o fewn band marc neu radd.

Fel arfer caiff y cysylltiad rhwng marciau a meini prawf asesu ei ddiffinio gan gynllun marcio sy'n nodi'n fanwl sut y bydd marciau'n cael eu priodoli.

Llunio cynllun marcio

Mae cynlluniau marcio'n elfen anhepgor o raglenni asesu dilys a dibynadwy.

Fel arfer maent yn cynnwys disgrifiad manwl o sut y dyrennir marciau o fewn unrhyw eitem o asesiad, ac ar gyfer yn union beth y byddant yn cael eu dyfarnu.

Wrth ddatblygu cynllun marcio bydd llawer o staff yn ei chael yn haws gwneud hynny trwy ddefnyddio atebion enghreifftiol sy'n dangos sut y caiff marciau eu dyrannu am wahanol agweddau ar ateb penodol. Er ei bod yn arferol i gynlluniau marcio nodi dyraniad marciau unigol, fe all hefyd fod yn briodol i neilltuo grwpiau o farciau i alluogi gwneud dyfarniadau mwy caboledig ac ansoddol.

Dangosir y berthynas rhwng canlyniadau dysgu, meini prawf asesu a chynllun marcio yn yr enghraifft ganlynol.

<i>Bydd yr asesiad hwn yn profi gallu myfyriwr i:</i>										
Canlyniad dysgu 1: Ysgrifennu adroddiad wedi ei saernïo'n dda ar bwnc diffiniedig										
Cywirdeb wrth ddefnyddio'r Saesneg <i>Marc a roddwyd</i>	Defnydd effeithiol o ramadeg ac atalnodi					Defnyddio gwael o ramadeg ac atalnodi				
	10	9	8	7	6	5	4	3	2	1
Cynnwys perthnasol i'r pwnc <i>Marc a roddwyd</i>	Ymateb yn canolbwyntio ar y pwnc					Bras iawn yw perthnasedd yr ymateb i'r pwnc				
	10	9	8	7	6	5	4	3	2	1

Eglurder y cynnwys <i>Marc a roddwyd</i>	Cynllun da; syniadau wedi eu trefnu'n dda					Cynllun gwael, wedi ei drefnu'n wael				
	10	9	8	7	6	5	4	3	2	1
Canlyniad dysgu 2: Gwneud rhestr cyfeirio										
Cyfeirnod <i>Marc a roddwyd</i>	Cyfeiriadau llawn, cywir a manwl					Cyfeirio annigonol at ffynonellau				
	10	9	8	7	6	5	4	3	2	1
Canlyniad dysgu 3: Adfer a dadansoddi data o ffynonellau llenyddol										
Gwybodaeth a dehongliad <i>Marc a roddwyd</i>	Casgliadau'n dilyn yn rhesymegol o'r data					Dim cysylltiad rhesymegol rhwng y data a chasgliadau				
	10	9	8	7	6	5	4	3	2	1

Ni fyddai'r enghraifft uchod yn cael ei defnyddio fel ffordd o gyrraedd y marc terfynol (e.e. adio'r holl farciau a ddyrannwyd gyda'i gilydd), ond byddai'n dangos lefelau perfformio ar gyfer y canlyniadau dysgu penodol, a fyddai wedyn yn arwydd ehangach o'r marc terfynol.

Mae mabwysiadu cynllun marcio'n cyfrannu'n helaeth at ddibynadwyedd a thegwch (a thryloywder) asesiadau, a bydd yn amhrisiadwy mewn achosion o apeliadau gan fyfyrwyr. Mae cynlluniau marcio'n hanfodol os bydd mwy nag un arholwr ynghlwm â'r broses o werthuso canlyniadau asesiadau, a hefyd lle mae angen marcio gwaith ddwywaith (yn unol â gofynion y Brifysgol). O ganlyniad mae myfyrwyr yn elwa ar welliant o ran ansawdd yr adborth a dderbynnir ganddynt yn dilyn asesiad.

Dylid datblygu cynlluniau marcio ar yr un pryd ag y mae asesiadau unigol (a'u meini prawf asesu cysylltiedig) yn cael eu cynllunio. Bydd hyn yn gymorth i wneud dyfarniadau am ddilysrwydd yr asesiad ei hun a'i gysylltiad â chanlyniadau dysgu modiwl (a rhaglen). Dylid cyflwyno cynlluniau marcio gydag asesiadau drafft i PC, yn unol â'r gofynion yn Atodiad E.

6. CYMERADWYO ASESIADAU: Sut i gael cymeradwyaeth

Mae'r bennod ganlynol yn esbonio proses gymeradwyo Prifysgol Cymru ar gyfer asesiadau y mae'n ofynnol i bob canolfan gydweithredol ei dilyn.


Trosolwg o broses y Brifysgol ar gyfer cymeradwyo meini prawf asesiadau

Prif elfennau proses y Brifysgol ar gyfer cymeradwyo asesiadau yw:

- i) caiff asesiad draft ei baratoi gan dîm rhaglen mewn canolfan gydweithredol;
- ii) caiff yr asesiad draft, ynghyd â'r asesiad ailsefyll cysylltiedig ei gyflwyno erbyn y terfyn amser perthnasol i'r swyddog dynodedig ym Mhrifysgol Cymru;
- iii) mae'r Brifysgol yn anfon yr asesiadau drafft at yr arholwr/wyr allanol penodedig i'w hystyried;
- iv) mae'r arholwyr allanol yn adolygu'r asesiadau drafft ac yn darparu sylwadau a gofynion ar gyfer diwygiadau (lle bo'n briodol) i'r Brifysgol;
- v) mae swyddog dynodedig y Brifysgol yn dychwelyd sylwadau'r arholwyr allanol a'r gofynion am ddiwygiadau i'r ganolfan gydweithredol ynghyd â therfyn amser ar gyfer unrhyw ddiwygiadau;
- vi) lle bo angen diwygiadau, mae'r ganolfan gydweithredol yn dychwelyd y fersiwn diweddaraf o'r asesiad i'r Brifysgol i'w gyfleu i'r arholwr allanol a fydd yn ystyried a ddylid cymeradwyo fersiwn diwygiedig yr asesiad. Dylai canolfannau nodi os bydd arholwr allanol yn dal i fethu â chymeradwyo aseiniad diwygiedig, y caiff camau iv, v a vi uchod eu hailadrodd;
- vii) os bu'n rhaid gwneud diwygiadau, mae swyddog dynodedig y Brifysgol yn sicrhau cymeradwyaeth derfynol ac yn cyfleu hyn i'r ganolfan;
- viii) dylai'r ganolfan gydweithredol gadarnhau derbyn yr asesiadau cymeradwy a sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel;

Amlinellir y broses gyffredinol yn y siart llif canlynol:

Siart llif yn dangos y broses



Dyddiadau cau cyflwyno

Rhaid i ganolfannau gyflwyno calendr asesu blynyddol ar ddechrau pob sesiwn academiaidd. Ceir enghraifft o'r calendr yn Atodiad C. Rhaid i'r calendr hwn ddiffinio dyddiadau'r holl arholiadau, yn ogystal â dyddiadau y cyhoeddir mathau eraill o asesu, fel gwaith cwrs neu aseiniadau.

Er mwyn caniatáu amser digonol i'r Brifysgol a'i harholwyr allanol gwblhau'r broses gymeradwyo (gan gynnwys ailgyflwyno ac ail-gymeradwyo os bydd yn ofynnol gan yr arholwr) mae'r Brifysgol yn ei gwneud yn ofynnol i'r canolfannau cydweithredol gyflwyno asesiadau i'w cymeradwyo o leiaf **un wythnos ar bymtheg** cyn dyddiad yr asesiad.

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu amserlen y Brifysgol ar gyfer y broses gymeradwyo:

Cam	Cam gweithredu	Cyfrifoldeb	Terfyn amser
1	Canolfan gydweithredol yn cyflwyno asesiad(au) a phapur ailsefyll drafft i'w cymeradwyo	Canolfan gydweithredol	O leiaf 16 wythnos cyn dyddiad yr asesiad
2	PC yn dychwelyd sylwadau'r a gofynion yr arholwr i'r ganolfan ac yn pennu dyddiad ar gyfer cyflwyno unrhyw ddiwygiadau i'w cymeradwyo'n derfynol	Swyddog dynodedig PC a'r arholwr allanol	O fewn chwe wythnos i dderbyn yr asesiad(au) gan y ganolfan
3	(Lle bo'n briodol) y ganolfan yn cyflwyno'r asesiad(au) diwygiedig i'w cymeradwyo'n derfynol	Canolfan gydweithredol	O fewn tair wythnos i dderbyn sylwadau'r arholwr gan PC
4	(Lle bo'n briodol) PC yn sicrhau cymeradwyaeth derfynol gan yr arholwr/wyr allanol ac yn cyfleu hyn i'r ganolfan	Swyddog dynodedig PC a'r arholwr allanol	O fewn pythefnos i dderbyn yr asesiad diwygiedig
5	Y ganolfan yn cadarnhau derbyn yr asesiad(au) cymeradwy	Canolfan gydweithredol	O fewn un wythnos i dderbyn yr asesiad cymeradwy
7	Cynnal yr asesiad	Canolfan gydweithredol	Y dyddiad a bennwyd yn y calendr asesu

Rhaid i ganolfannau cydweithredol nodi bod y terfyn amser o un wythnos ar bymtheg ar gyfer cyflwyno'r asesiadau drafft cyntaf yn orfodol. Os na chaiff asesiadau eu derbyn erbyn y dyddiad hwn ar yr hwyraf ni fydd y Brifysgol yn caniatáu i asesu (ac unrhyw gyfarfod cysylltiedig o fwrdd arholi) ddigwydd.

Bydd y Brifysgol hithau'n ymrwymo i sicrhau bod ei swyddogion a'i harholwyr allanol yn cydymffurfio â'r amserlen hon.

Dylai canolfannau nodi bod rhai cyflwyno Ffurflen Cymeradwyo Asesiad PC gyda phob asesiad. Ceir copi o'r ffurflen hon yn Atodiad D. Rhaid i Ganolfan gwblhau Adran 1 o'r ffurflen hon wrth gyflwyno asesiad. Dylai arholwyr allanol gwblhau Adran 2, ac mae Adran 3 ar gyfer cadarnhad terfynol gan ganolfan ei bod wedi derbyn fersiwn terfynol cymeradwy'r asesiad.

Beth sy'n gorfod cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo?

Rhaid cyflwyno'r holl asesiadau arfaethedig sy'n cyfrannu at ddyfarniad terfynol mewn rhaglen i'r Brifysgol i'w cymeradwyo. Mae hyn yn cynnwys arholiadau, aseiniadau cwrs a gwaith prosiect. Mae cyflwyno o fewn un wythnos ar bymtheg yn gymwys heb eithriad i'r holl ffurflenni asesu hyn.

Mae'n bwysig nodi gofyniad y Brifysgol (fel sy'n cael ei nodi yn y *Llawlyfr Graddau a Addysgir*) bod asesiadau a gyflwynir i'w cymeradwyo'n gorfod bod yn y ffurf y bydd myfyrwyr yn eu derbyn, h.y. yn ogystal â chwestiynau neu dasgau gosodedig, rhaid i asesiadau a gyflwynir i'r Brifysgol gynnwys cyfarwyddiadau i ymgeiswyr a manylion am y dosraniad marciau arfaethedig.

Hefyd rhaid i'r asesiadau arfaethedig gael canllaw marcio sy'n diffinio sut, ac ar ba sail, mae'r tîm marcio mewnol yn bwriadu dosrannu marciau, ynghyd â'r Ffurflen Cymeradwyo Asesiad drafft (gweler Atodiad E).

Ymdrin ag asesiadau ail-sefyll

Mewn achosion lle bo myfyrwyr yn methu asesiad fel arfer mae'n ofynnol iddynt ailsefyll asesiad. Felly, pan fydd canolfannau cydweithredol yn cyflwyno asesiad ar gyfer ei gymeradwyo, **rhaid hefyd** cyflwyno asesiad ailsefyll drafft i'w gymeradwyo ar yr un pryd. Bydd hyn yn osgoi llithriad amser o ran sicrhau cymeradwyaeth i asesiadau ailsefyll.

Asesiadau mewn ieithoedd ar wahân i Gymraeg neu Saesneg

Os yw asesiad mewn iaith ar wahân i'r Gymraeg neu'r Saesneg, mae'r Brifysgol yn ceisio penodi cymedrolwyr ac arholwyr allanol sy'n meddu ar y sgiliau iaith priodol. Nod y Brifysgol yn hyn o beth yw rhoi sylw cyflawn i bob rhaglen o'r fath trwy benodi cymedrolwyr ac arholwyr sy'n meddu ar y cymwysterau iaith angenrheidiol.

Fodd bynnag, lle nad yw'n bosibl gwneud penodiadau o'r fath, mae'n ofynnol gan *Weithdrefn Cymeradwyo Asesiadau* Prifysgol Cymru, os yw asesiad mewn iaith ar wahân i'r Gymraeg neu'r Saesneg, rhaid i ganolfannau cydweithredol gyflwyno cyfieithiad Saesneg llawn o'r asesiad arfaethedig (gan gynnwys canllaw marcio) gyda'r fersiwn yn yr iaith wreiddiol.

Mae polisi'n diffinio gofynion y Brifysgol mewn perthynas â'r broses o ddilysu cywirdeb defnydd o'r fath sydd wedi ei gyfieithu yn y *Llawlyfr Graddau a Addysgir 2015-16*. Mae'r adran ganlynol yn rhoi trosolwg o'r polisi.

Nod y polisi, sy'n berthnasol i'r holl ddarpariaeth a addysgir, yw sicrhau

- i) nad yw safonau dyfarniadau'r Brifysgol yn debygol o gael eu peryglu o ganlyniad i gynnal asesiad mewn iaith ar wahân i'r Gymraeg neu'r Saesneg;
- ii) nad yw ymgeiswyr dan anfantais nac yn gallu elwa ar achosion lle mae angen i waith gael ei gyfieithu;
- iii) bod arholwyr allanol yn gallu gwneud dyfarniadau dibynadwy a chadarn ar gyflawniadau ymgeisydd.

Mae'r polisi'n berthnasol i bob ffurf ar ddefnydd gan gynnwys aseiniadau, arholiadau a ble'n briodol, sampl o sgriptiau ymgeiswyr asesiadau unigol.

Mae'r broses yn gofyn bod cyfieithydd cymwys yn cael ei ddefnyddio gan ganolfan gydweithredol i ddilysu cywirdeb y defnydd sydd wedi ei gyfieithu mewn perthynas â thestun iaith gyntaf gwreiddiol yr asesiad. Ni fydd angen ôl-gyfieithu'r defnydd⁶, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol (megis at ddibenion gwirio cywirdeb gwaith cyfieithwyr unigol, neu yn achos rhaglenni 'dwyr iaith' sy'n defnyddio'r un asesiad ar gyfer arholi carfanau unigol yn yr iaith gyntaf ac yn Saesneg).

Bydd y broses ddilysu fel a ganlyn:

- i) y ganolfan gydweithredol i ddarparu'r defnydd asesu gofynnol wedi ei gyfieithu i'r Saesneg ynghyd â'r testun yn yr iaith wreiddiol;
- ii) dilysiad o'r cyfieithiad Saesneg a gyflwynwyd mewn perthynas â'r testun yn yr iaith wreiddiol gan gyfieithydd / dilysydd cymwys;
- iii) y cyfieithydd / dilysydd i ddarparu datganiad wedi ei lofnodi (gweler ynghlwm) yn ardstio cywirdeb y cyfieithiad;
- iv) os gwelir bod defnydd sydd wedi ei gyfieithu'n gwahaniaethu'n sylweddol oddi wrth y testun yn yr iaith wreiddiol, caiff y ganolfan gydweithredol ei hysbysu, ac ymgwymerir ag ail gyfieithiad llawn gan gyfieithydd a enwebir gan y Brifysgol, cyn y caiff y defnydd ei gyflwyno i'r arholwr / arholwyr allanol.

Mewn achosion lle mae angen dilysu asesiadau drafft, caiff y terfyn amser o un wythnos ar bymtheg ar gyfer cymeradwyo asesiadau ei ymestyn i **bedair wythnos ar hugain** er mwyn caniatáu digon o amser i gwblhau'r broses ddilysu cyn i'r defnydd gael ei gyflwyno i arholwyr allanol.

At ddibenion y broses ddilysu, ni fydd y Brifysgol ond yn cyflogi cyfieithydd / dilysydd y mae ei gymwysterau a chymwyseddau wedi cael eu cymeradwyo gan gorff cyfrifol megis The British Council, neu trwy sefydliadau fel Institute of Translators and Interpreters.

⁶ Dyma'r broses lle caiff testun iaith gyntaf ei gyfieithu i iaith darged (h.y. Saesneg) gan un cyfieithydd, ac yna caiff y testun yn yr iaith darged ei gyfieithu yn ôl i'r iaith gyntaf gan ail gyfieithydd annibynnol. Yna caiff y ddwy fersiwn yn yr iaith gyntaf eu gwirio am gysondeb.

Yn y cyd-destun hwn, ble bynnag y bo'n bosibl, bydd y Brifysgol yn ceisio cytundeb ffurfiol â'r British Council i ddod o hyd i gyfieithwyr priodol i ymgymryd â'r broses ddilysu.

Mae'r *Polisi ar gyfer Cymeradwyo Asesiadau mewn Ieithoedd ar wahân i Gymraeg neu Saesneg*, a nodir yn y [Llawlyfr Graddau a Addysg](#), hefyd yn rhoi cyfarwyddyd ar samplo sgriptiau ymgeiswyr wrth baratoi ar gyfer byrddau arholi.

Dylai canolfannau cydweithredol ddefnyddio'r templed yn Atodiad F i sicrhau bod y gwaith o ddilysu defnydd asesu'n cael ei gofnodi'n briodol.

7. MARCIO ASESIADAU: Sut i gael y canlyniadau iawn

Mae'r bennod ganlynol yn amlinellu'r weithdrefn marcio, yn benodol y broses o farcio dwbl.

Gweithdrefnau marcio

Gall gweithdrefnau marcio amrywio'n dibynnu ar natur yr asesiad a'i gyd-destun o fewn y rhaglen.

Fel arfer mae'n arfer da i anodi sgriptiau neu waith cwrs i gynorthwyo adborth i fyfyrwyr ac i helpu'r broses safoni (gweler isod). Fodd bynnag, bydd yr arfer hwn yn milwrio yn erbyn marcio dwbl, yn arbennig marcio dwbl dall, oni bai bod copïau lluosog o sgriptiau neu waith cwrs yn cael eu cymryd a'u dosbarthu ar wahân i'r marcwyr cyntaf a'r ail farcwyr.

Pa ddulliau bynnag a ddefnyddir, mae'n hanfodol bod arholwyr (gan gynnwys arholwyr allanol) yn gallu bod yn gwbl eglur ynglŷn â pha farciau'n union, a sut, sydd wedi cael eu dyrannu o fewn eitem unigol o waith cwrs.

Safoni mewnol a marcio dwbl

Mae'n ofynnol i bob canolfan gydweithredol gael polisi ysgrifenedig ar farcio dwbl y dylid ei gytuno â safonwr / safonwyr Prifysgol Cymru. Mae gan safonwyr ddwy swyddogaeth wrth sicrhau effeithiolrwydd y broses safoni fewnol a darparu cymorth ac arweiniad i staff ynghylch gweithgareddau safoni unigol.

Wrth osod y cyfrifoldeb ar y canolfannau, mae'r Brifysgol yn adnabod yr angen am dimau cwrs a byrddau arholi gyflawni asesiadau o fyfyrwyr mewn modd sy'n briodol i ddisgyblaethau unigol, ac i'r dulliau asesu a ddefnyddir (er y disgwylir i ganolfannau roi polisi cyson ar waith ar draws pob modiwl tebyg). Wrth ddilyn arferion asesu sy'n amlwg yn deg, yn ddilys ac yn ddibynadwy, mae'n ofynnol gan y Brifysgol bod yr holl ganolfannau'n mabwysiadu'r prosesau sylfaenol a nodir isod fel isafswm.

Cyfrifoldeb staff y ganolfan yw safoni sgriptiau'n fewnol a marcio dwbl, h.y. nid dyma'r swyddogaethau y disgwylir i safonwyr eu cyflawni.

Mae safoni a marcio dwbl yn golygu defnyddio ail farciwr. Mae'r Brifysgol yn diffinio safoni mewnol fel y broses lle caiff sampl cynrychioliadol o waith ei adolygu gan ail farciwr. Marcio dwbl yw'r broses lle mae'r holl waith yn cael ei farcio gan ddau farciwr, naill ai'n annibynnol (marcio dwbl dall), neu lle mae'r ail farciwr yn ymwybodol o sylwadau'r marciwr cyntaf.

Amcanion pennaf safoni mewnol a marcio dwbl yw:

- gwirio bod asesiad wedi cael ei farcio yn unol â nodau a chanlyniadau dysgu penodol yr aseiniad/arholiad, ac o ran meini prawf marcio;
- rhoi sicrwydd i fyfyrwyr o degwch y marcio ac felly eu sicrhau bod pob myfyriwr yn cael ei drin yn gyfartal;
- sicrhau cysondeb mewnol asesiad o fewn modiwl;
- darparu dull i gymharu safonau ar draws modiwlau o fewn maes pwnc.

Ni chaiff myfyrwyr apelio yn erbyn dyfarniad academiaidd felly mae'n bwysig sicrhau tegwch a chysondeb trwy gydol y broses safoni fewnol a / neu farcio dwbl. Yn ogystal, bydd arholwyr allanol yn adolygu'r broses farcio a'r marciau a ddifarnir. Craffir ymhellach ar ganlyniadau cyffredinol yr

asesiad, yn ogystal â chanlyniad pob myfyriwr unigol, yng nghyfarfod yr arholwyr mewnol ac yng nghyfarfod gwneud penderfyniad terfynol y bwrdd arholi.

Safonau gofynnol ar gyfer safoni a marcio dwbl

Rhaid defnyddio'r rhain ar gyfer pob gwaith a asesir sy'n cyfrannu tuag at ddosbarthiad y radd derfynol

Mae pob arholiad a setiau o aseiniadau'n amodol ar safoni mewnol. Dylai maint y sampl, fel isafswm, gynnwys ystod lawn o farciau / dosbarthiadau gradd a ddyfarnwyd gan yr arholwr / arholwyr cyntaf, a'r holl achosion lle mae'r marciau a ddyfarnwyd gan y marciwr/ marcwyr cyntaf yn disgyn i un o'r dosbarthiadau canlynol:

- dosbarthiad o ddosbarth cyntaf / clod posibl;
- dosbarthiad o fethiant posibl.

Dylid defnyddio marcio dwbl ar gyfer yr holl sgriptiau yn yr achosion canlynol

- unrhyw achosion lle mae'r marcio wedi cael ei gyflawni gan unigolion nad ydynt yn aelodau o staff academiaidd y ganolfan, neu lle mae staff yn newydd neu'n ddibrofiad;
- pob achos o dorri cyfarwyddiadau mewn arholiadau (fel arfer annheg).

Mae'n ofynnol gan y Brifysgol bod yr holl draethodau hir ar gyfer gradd Meistr yn cael eu marcio ddwywaith gan ddau aelod profiadol o staff canolfan gydweithredol, y mae'n rhaid i'r ddau ohonynt fod yn meddu ar arbenigedd pwnc perthnasol. Ni chaiff goruchwyliwr y traethawd fod yn un o'r marcwyr mewnol. Yna caiff y traethawd hir ei anfon at y Gofrestrfa i'w anfon ymlaen at arholwr allanol i gael ei adolygu a'i safoni'n derfynol. (Mae'n ofynnol bod canolfannau'n gosod uchafswm cyfnod rhesymol ar gyfer marcio pob traethawd ddwywaith, e.e. pymtheg diwrnod gweithio).

Cymodi anghytuno rhwng marcwyr mewnol

Dylid disgwyl y rhain ac maent yn codi'n naturiol o ddyfarniad annibynnol. Serch hynny, bydd arholwyr allanol a'r bwrdd arholi'n disgwyl derbyn set sengl o farciau cytûn.

Lle ceir anghytuno mewn achosion lle mae'r asesuadau wedi cael eu marcio'n ddwbl dylid eu datrys trwy:

- drafodaeth rhwng y marcwyr;
- marc cyfartalog (ond dim ond lle mae'r ddau farc eisoes yn agos ac mae'r ddau o fewn yr un dosbarthiad gradd).

Os bydd y mesurau uchod yn methu â datrys anghytuno, dylai trydydd aelod o staff academiaidd uwch (a enwebir gan gadeirydd y bwrdd arholi h.y. y safonwr) adolygu'r gwaith a aseswyd ac arwain cydweithwyr at set gytûn o farciau. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol iawn y dylid cyflwyno gwahaniaethau rhwng marciau sydd heb eu datrys i'r arholwyr allanol eu cymodi.

Os bydd anghytuno'n codi mewn achosion lle mae asesuadau wedi cael eu safoni, ni ddylid newid marciau unigol (ac eithrio mewn achosion o gamgymeriad rhifyddol), i sicrhau nad oes unrhyw fyfyrwr yn elwa o ganlyniad i gynnwys eu hasesiad yn y sampl na bod unrhyw fyfyrwr dan anfantais.

Yn hytrach, yn dibynnu ar lefel y gwahaniaeth rhwng yr arholwyr mewnol dylai cadeirydd y bwrdd arholi drafod y canlynol gyda'r ddau farciwr;

- yn seiliedig ar y sampl a safonwyd (neu ganran gynyddol) a ddylid rhoi dyfarniad i'r asesiad fel cyfanrwydd;

- a ddylai'r set gyfan o asesiadau gael eu marcio'n ddwbl (gweler y canlyniadau posibl uchod).

Dylid trafod canlyniad unrhyw gamau gweithredu o'r fath yn llawn yng nghyfarfod y bwrdd arholi.

Trefnu safoni mewnol a marcio dwbl


Fel arfer y marciwr cyntaf fydd y person a osododd yr asesiad neu arweinydd y modiwl. Mae'n bwysig defnyddio aseswyr sy'n meddu ar ddigon o arbenigedd. Yn ymarferol, gall hyn osod rhai cyfyngiadau ar ddewis ail farciwr. Dylai'r safonwr mewnol feddu ar ddigon o arbenigedd ac uwchraddoldeb i allu herio'r graddau a ddyfarnwyd gan y marciwr cyntaf.

Argymhellir bod safonwyr Prifysgol Cymru (yn eu swyddogaeth fel cadeirydd y bwrdd arholi) yn cytuno ar restr o barau o farcwyr dwbl ar gyfer y flwyddyn academaidd; mae osgoi 'parau clyd' a 'pharau bythol cilyddol' yn bwysig.

Mewn rhai achosion gall marcio asesiadau 'yn ddall' fod yn well, h.y. dylai'r ail farciwr raddio asesiadau heb wybod beth yw'r marc cyntaf. Bydd proses o'r fath yn cynyddu dyfarniad annibynnol.

Rhaid cadw cofnod eglur o ba rannau unigol o asesiad sydd wedi cael eu marcio'n ddwbl. Os fydd marcio dwbl dall wedi digwydd gellir cofnodi hyn ar yr asesiad ei hun ar ôl i'r ddau farciwr gytuno ar farc terfynol. Mewn achosion eraill dylai gwaith y ddau arholwr sy'n marcio'r asesiad fod i'w weld yn eglur ar yr asesiad.

Mae'r diagram canlynol yn dangos trosolwg cyffredinol o sut gall marcio dwbl dall weithio i ganolfan gydweithredol.



8. ADBORTH I FYFYRWYR: Sut i ddweud wrth y myfyriwr am yr asesiad

Un o egwyddorion sylfaenol asesu yw ei fod yn rhoi adborth i fyfyrwyr ar eu cynnydd trwy gwrs yn gyffredinol a'u perfformiad mewn modiwlau penodol yn arbennig. Mae'n galluogi myfyrwyr i ddeall beth maent wedi ei wneud yn dda, a'r meysydd hynny o'u rhaglen astudio y mae angen iddynt eu gwella (sydd yr un mor bwysig). Felly mae adborth ar ganlyniadau asesu yn ffordd allweddol o hwyluso dysgu myfyrwyr.

Datgelu marciau i fyfyrwyr

Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng marciau a argymhellwyd a marciau a gadarnhawyd.

Marciau a argymhellwyd yw'r rhai sydd wedi cael eu cytuno gan fwrdd arholi a gyfansoddwyd yn gywir gan Brifysgol Cymru gan gynnwys yr arholwr neu arholwyr allanol perthnasol. Rhaid ystyried y trefniadau ar gyfer rhyddhau marciau a argymhellwyd i fyfyrwyr yn ofalus - nid yw'r arfer o gyhoeddi canlyniadau ar hysbysfyrddau yn un eang erbyn hyn, a hyd yn oed os gwneir hyn, dylid gwarchod anhysbysrwydd myfyrwyr trwy ddefnyddio rhifau adnabod yn hytrach nac enwau myfyrwyr unigol. Mae nifer o ganolfannau'n rhyddhau marciau a gadarnhawyd i fyfyrwyr yn electronig bellach. Pa ddull bynnag a ddefnyddir, rhaid gwneud yn amlwg mai argymhelliad yn unig yw'r marciau hyn a'u bod yn amodol ar gadarnhad gan Fwrdd Arholi Trosfwaol y Brifysgol.

Dylid nodi y gall myfyrwyr ofyn i weld eu sgriptiau arholiad, ond ni ddylid caniatáu hyn nes bod marc wedi cael ei gadarnhau gan Fwrdd Arholi. Gellir hefyd darparu adborth generig i grŵp o fyfyrwyr a all helpu myfyrwyr i wella'u perfformiad unigol trwy ddysgu gan y garfan yn ei chyfarwydd.

Rhoi adborth

Fel y nodwyd uchod, mae'n hanfodol bod myfyrwyr yn derbyn adborth unigol ar eu perfformiad hyd yma (e.e. gwaith cwrs, arholiadau tymor cyntaf) gan fod hyn yn hyrwyddo dysgu ac yn hwyluso gwelliant.

Dylai unrhyw adborth fod yn adeiladol ac amserol, er mwyn i fyfyrwyr elwa ar yr adborth a gwella eu perfformiad. Mae'n arfer da i sefydlu amserlen glir ar gyfer darparu adborth i fyfyrwyr yn ogystal â sefydlu cyfarwyddyd ynglŷn â lefel yr adborth sydd i gael ei ddarparu. Fel arfer byddai'r Brifysgol yn disgwyl i adborth gael ei ddarparu **o fewn tair wythnos** i gyflwyniad asesiadau gan fyfyrwyr.

Wrth roi adborth i fyfyrwyr dylid ystyried y materion canlynol.

- i) Dyfarniad yw marcio - dylai adborth, ar y llaw arall, fod yn gefnogol a chanolbwyntio ar yr hyn y dylai'r myfyriwr ei wneud i wella lefel ei berfformiad.
- ii) Dylai adborth fod yn brofiad dysgu i'r myfyriwr, a dylid ei strwythuro gyda hyn mewn golwg.
- iii) Dylai adborth fod yn eglur ac ni ddylai adael unrhyw gwmpas ar gyfer camddealltwriaeth.
- iv) Dylai adborth fod yn adeiladol ac mewn tôn cadarnhaol, o bosib yn defnyddio'r 'dull brechdan', dechrau gyda sylw cadarnhaol, yna mynd i'r afael â'r problemau, a gorffen gyda rhywbeth cadarnhaol.
- v) Dylai adborth annog hunanarfarnu gan y myfyrwyr.
- vi) Mae adborth generig (h.y. i ddosbarth cyfan) yn ddefnyddiol, ond ni ddylai hyn fod ar draul adborth unigol i fyfyrwyr.

vii) Rhaid i adborth fod yn amserol. Amlinellir disgwyliadau sylfaenol y Brifysgol uchod.

Mathau o adborth

Mae cyfarfodydd wyneb yn wyneb â myfyrwyr yn debygol o barhau i fod yn ddull pwysig o ddarparu adborth. Fodd bynnag, hyd yn oed pan fydd cyfarfodydd o'r fath yn digwydd mae'n arfer da i ddatblygu taflenni adborth *pro forma* safonol i gyd-fynd ag unrhyw waith asesiad sy'n cael ei ddychwelyd ac i lywio trafodaeth wyneb yn wyneb. Gellir defnyddio *pro forma* fel yr enghraifft a gyflwynir ym mhennod 5: Meini Prawf Asesu - Sut i wneud asesu'n ddibynadwy fel arweiniad ar gyfer y taflenni hyn.

Bydd ffurf taflen adborth o'r fath yn amrywio yn ôl natur a math o asesiad. Mae taflen y gellid ei defnyddio i ddarparu adborth ar asesiad prosiect gan grŵp yn Atodiad G.

Dylai staff hefyd ystyried rhoi adborth trwy e-bost i garfannau llai. Trwy hyn mae myfyrwyr yn derbyn adborth pan maent yn barod i'w dderbyn. Mae hefyd yn golygu y gellir darparu adborth wrth i bob darn o waith gael ei farcio, yn hytrach na phan fydd gwaith carfan gyfan wedi ei farcio. Fodd bynnag, ni ddylai dulliau gweithredu o'r fath olygu darparu adborth i fyfyrwyr dros nifer o wythnosau.

Yn gyffredinol, mae adborth ar arholiadau ysgrifenedig yn fwy problematig. Fodd bynnag, mae amgylchiadau pan gall adborth o'r fath fod yn werthfawr, yn arbennig i fyfyrwyr sydd wedi methu arholiad. Mewn achosion o'r fath, dylai staff fynd trwy sgript myfyrwyr gyda nhw mewn cyfarfod wyneb yn wyneb. Ni ddylid caniatáu i fyfyrwyr fynd â sgriptiau i ffwrdd gyda nhw.

Egwyddorion adborth da

Mae'r rhestr ganlynol yn nodi saith egwyddor arfer adborth da a gynigiwyd yn 2005 i sicrhau bod myfyrwyr yn gallu datblygu o ganlyniad i'r adborth.⁷

- i) Mae adborth yn hwyluso datblygu hunanasesu (myfyrio) mewn dysgu.
- ii) Mae adborth yn annog dialog ynghylch dysgu rhwng athro a chymheiriaid.
- iii) Mae adborth yn helpu i esbonio beth yw arfer da (goliau, meini prawf safonau disgwylidiedig).
- iv) Mae adborth yn darparu cyfleoedd i gau'r bwlch rhwng perfformiad presennol a'r perfformiad a ddymunir.
- v) Mae adborth yn rhoi gwybodaeth o ansawdd uchel i fyfyrwyr am eu dysgu.
- vi) Mae adborth yn annog credoau cadarnhaol ac ysgogol a hunan barch.
- vii) Mae adborth yn rhoi gwybodaeth i athrawon y gellir ei defnyddio i helpu i ffurfio eu haddysgu.

Dylai staff geisio mabwysiadu'r agweddau hyn wrth ddatblygu adborth o ansawdd i fyfyrwyr, er mwyn sicrhau ei fod yn brofiad dysgu ffurfiannol ac yn fan cychwyn ar gyfer cyflawni datblygiad yn y dyfodol.

⁷ Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, *Reflections on Assessment*, Cyfrol II, Caerloyw, 2005, 108.

9. LLÊN-LADRAD - ATAL A RHEOLI

Fel rhan o'r broses o ddatblygu sgiliau academiaidd da, bydd staff yn ceisio annog myfyrwyr i beidio â llên-ladrata. Er mai gweithredu ataliol trwy helpu myfyrwyr i adnabod arfer academiaidd annheg yw'r dull a ffafrir, mae dulliau y gall y staff eu defnyddio i'w gwneud yn anoddach i fyfyrwyr ymgymryd ag arferion o'r fath.

Arfer annheg yw cyflawni gweithred lle gall unigolyn sicrhau mantais na chaniateir iddo ef neu iddi hi ei hun, neu i rywun arall. Bydd hyn yn wir os yw'r ymgeisydd yn gweithredu ar ei ben ei hun neu mewn cydweithrediad â rhywun arall neu rywrai eraill. Bernir bod unrhyw weithred neu weithredoedd yn dod o dan y diffiniad hwn pa un a yw'n digwydd yn ystod, neu mewn perthynas ag arholiad ffurfiol, darn o waith cwrs, neu unrhyw ffurf ar asesiad yr ymgymerydd ag ef i ennill cymhwyster gan Brifysgol Cymru. Ceir rhestr lawn o enghreifftiau o arferion annheg yn y Weithdrefn Arfer Annheg yn y *Llawlyfr Graddau a Addysgir*.

Ymgorffori amddiffyniadau mewn asesiadau

Mae sawl techneg gall staff eu mabwysiadu wrth osod asesiad sy'n lleihau'r tebygrwydd bod myfyrwyr yn ymgymryd â llên-ladrad, gan gynnwys, *inter alia*:

- gofyn i fyfyrwyr ddewis gwybodaeth am bwnc penodol o nifer o ffynonellau er mwyn cymharu, cyferbynnu, a beirniadu cryfderau a gwendidau pob ffynhonnell
- creu senarios damcaniaethol sy'n gysylltiedig â realiti sy'n gofyn bod myfyrwyr yn cynllunio camau gweithredu ac ysgrifennu adroddiad mewn ymateb i'r senario
- trefnu dadl, y mae gofyn i'r timau baratoi defnydd ar bwnc penodol ar ei chyfer, yn dadlau o safbwynt penodol, rhagweld gwrthwynebiadau gan dîm sy'n gwrthwynebu. Yna mae gofyn i fyfyrwyr ysgrifennu adroddiad ar y digwyddiad.

Hyfforddiant

Bydd canolfannau cydweithredol am ddarparu hyfforddiant i fyfyrwyr ar ddiffinio beth yw llên-ladrad, sut i'w ganfod, a beth yw'r cosbau. Felly efallai y bydd staff am drafod y canlynol gyda myfyrwyr cyn ymgymryd ag asesiad:

- diffiniad llên-ladrad;
- sut i osgoi llên-ladrad;
- y gwahaniaeth rhwng gwaith cydweithredol a chydgyllwynio;
- sut i fynd i'r afael â phroblemau diwylliannol a all arwain yn anfwriadol at llên-ladrad;
- y rheoliadau priodol sy'n ymwneud â llên-ladrad.

Canfod llên-ladrad

Mae rhai arwyddion gall staff fod yn sensitif iddynt, a all awgrymu tebygolrwydd o llên-ladrad:

- mae'r gwaith yn or-soffistigedig i fyfyrwr o ran iaith a chynnwys
- mae anghysondeb rhwng yr elfennau sydd wedi eu llên-ladrata a'r hyn mae'r myfyrwr wedi ei ysgrifennu heb gymorth o ran lefel, defnydd o iaith ac, mewn iaith dramor, cywirdeb ieithyddol
- gall y gwaith ymddangos yn ddiffocws am ei fod yn symud o baragraff i baragraff neu o frawddeg i frawddeg o wahanol ffynonellau, neu yn wir o wahanol rannau o'r un ffynhonnell, heb unrhyw gysylltiadau neu symudiad eglur. Er bod diffyg trefn yn sicr yn

nodweddiadol o rywfaint o waith nad yw wedi ei lèn-ladrata, y cyfuniad o ddilyniannau eithaf soffistigedig gyda diffyg ffocws a all ddynodi llên-ladrad

- gellir canfod llên-ladrad rhyngwyd mewn rhai achosion trwy nodweddion fel sillafu Americanaidd; newid mewn sgrïpt neu fformat ar gyfer rhannau wedi'u lawr lwytho; o fodolaeth dolenni wedi'u mewnbllannu i wefannau o fewn y testun; o gyfeiriad at wlad arall yn y testun fel yr un mae'r myfyriwr yn ysgrifennu ynddi
- mae'r gwaith yn llawer gwell na'r hyn a gynhyrchir fel arfer gan y myfyriwr. Gall hyn fod yn anodd gan fod pobl yn gwella ac ni ddylid rhagfarnu'r mater mewn sefyllfa lle mae arholiadau a llawer o waith cwrs yn anhysbys; efallai na ddaw hyn i'r amlwg nes yn eithaf hwyr
- lle ceir amheuaeth o lèn-ladrad, gellir defnyddio chwilotwyr llên-ladrad priodol. Mae staff hefyd wedi canfod bod bwydo nifer o eiriau i chwilotwr wedi eu galluogi i ddod o hyd i'r ffynhonnell.⁸

Mae'r Brifysgol hefyd yn rhoi mynediad i ganolfannau cydweithredol i ddefnyddio'r meddalwedd paru testun *Turnitin*, gwybodaeth y gellir mynd ato trwy [wefan y Brifysgol](#). Er bod rhai sefydliadau'n ei ddefnyddio fel dull cosbi, mae'r Brifysgol yn ei adnabod fel offeryn datblygiadol i fyfyrwyr a staff. Felly dylai staff weithio gyda myfyrwyr wrth ddefnyddio *Turnitin*, gan ei ddefnyddio i adnabod llen-ladrad o fewn eu haseiniadau eu hunain.

Gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â throedd academaidd

Dylid cynnwys pob achos o lèn-ladrad yng Ngweithdrefn Arfer Annheg y Brifysgol a dylid hysbysu'r Brifysgol amdanynt trwy gyfwng ei fwrdd arholi a'r adroddiad monitro blynyddol. Mae manylion y *Weithdrefn Arfer Annheg* yn Llawlyfr Graddau a Addysgir y Brifysgol.

10. CEFNOGI MYFYRWYR AG ANABLEDDAU DYSGU PENODOL MEWN ASESIAD

Mae'r Brifysgol yn disgwyl y bydd canolfannau cydweithredol yn bodloni deddfwriaeth leol, a lle bynnag y bo'n bosibl yn cydymffurfio â *Deddf Cydraddoldeb* 2010 y DU, trwy wneud yr holl

⁸ Prifysgol Ulster *Assessment Handbook*, 75

addasiadau rhesymol er mwyn cefnogi anghenion myfyrwyr ag anableddau. Nod yr adran ganlynol yw codi ymwybyddiaeth o fathau penodol o anableddau dysgu, yn ogystal â rhoi trosolwg o ddulliau gweithredu safonol y gellir eu mabwysiadu er mwyn cynorthwyo myfyrwyr sy'n cael eu hasesu.

Diffinio anawsterau dysgu penodol

Mae'r term 'Anabledd Dysgu Penodol' yn derm ambarél sy'n cyfeirio at gyflwr niwrolegol sy'n effeithio ar y ffordd mae gwybodaeth yn cael ei dysgu a'i phrosesu. Y rhai mwyaf cyffredin, neu sy'n digwydd amlaf yw: Dyslecsia, Dyspracsia, Dyscalcwlia, ac Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd. Gellir adnabod anabledd dysgu penodol ar unrhyw bwynt yn ystod bywyd unigolyn, ac mae'n bwysig bod staff addysgu'n gallu rhoi cymorth i bob myfyriwr gyflawni ei botensial llawn. Dylai canolfannau cydweithredol gael systemau ar waith i gefnogi myfyrwyr trwy eu cyfnod mewn addysg, gydag adnoddau penodol ar gyfer sgiliau astudio a chymorth i'r rhai hynny ag anableddau dysgu penodol.

Dyslecsia

Caiff dyslecsia ei gysylltu fel arfer ag anawsterau darllen a sillafu, ond gall hefyd effeithio ar ysgrifennu, trefnu, sylw, y cof, ynganiad, cofio geiriau, dilyniannu, cyflymderau prosesu a chysyniad o amser neu ofod. Gall pobl â dyslecsia ddangos cryfderau mewn amrywiaeth o sgiliau gwybyddol gan gynnwys meddwl yn weledol, dargyfeiriol, ochrol, a chyfannol.

Dyspracsia

Caiff dyspracsia ei gysylltu fel arfer ag anawsterau cydsymud echddygol, a gall effeithio ar sgiliau ysgrifennu neu deipio. Credir y gall yr anabledd dysgu penodol hwn ddigwydd ochr yn ochr â symptomau sy'n gysylltiedig ag anableddau dysgu penodol eraill.

Dyscalcwlia

Caiff dyscalcwlia ei gysylltu fel arfer ag anawsterau gydag ennill sgiliau rhifyddol gan gynnwys gweithio gyda chysyniadau rhif a dysgu ffeithiau a gweithdrefnau rhifiadol. Gall pobl â dyscalcwlia ddangos cryfderau gwybyddol mewn agweddau ar ddatrys problemau, creadigrwydd, dulliau gweithredu ymarferol, greddf a defnydd o eiriau.

Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd

Mae Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd yn effeithio ar y ffordd mae gwybodaeth yn cael ei dysgu a'i phrosesu, gydag anawsterau rheoli cymhelliad, canolbwyntio a gorfywiogrwydd. Gall pobl ag Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd ddangos cryfderau gwybyddol o ran gwreiddioldeb a dyfeisgarwch, ffocws eithafol yn yr hyn sydd o ddiddordeb iddynt, a'r gallu i ddeall materion cymhleth yn gyflym.

Dulliau safonol o gefnogaeth

Pan fydd myfyrwyr yn datgelu bod ganddynt anabledd dysgu penodol, bydd staff am wneud trefniadau priodol i sicrhau bod myfyrwyr yn cael cefnogaeth briodol yn ystod eu hastudiaethau. O fewn cyd-destun asesu, dylai staff osod asesiadau a fydd yn gefnogol i berfformiad myfyrwyr, y gellir ymgymryd â nhw mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Dan amodau arholiad, gall myfyrwyr ag anabledd dysgu penodol sydd wedi ei ddatgelu a'i gofnodi dderbyn hyd at 25 % o amser ychwanegol i gwblhau arholiadau'n briodol.⁹

Efallai bydd canolfannau cydweithredol am ddefnyddio ffurf anhysbys o adnabod trwy ddefnydd sticeri priodol ar waith, a fyddai'n adnabod ymgeisydd ag anabledd dysgu penodol.

⁹ Gall enghraifft o ddogfen sy'n dangos anabledd dysgu penodol unigolyn gynnwys adroddiad gan seicolegydd addysg.

Wrth farcio gwaith ymgeiswyr ag anableddau dysgu penodol, cynghorir staff ble'n bosibl i beidio â chosbi am gamgymeriadau sillafu, cystrawen, trefn geiriau neu fynegiant. Fodd bynnag, cydnabyddir bod cywirdeb sillafu a mynegiant yn hollbwysig i asesiad mewn rhai disgyblaethau ac na ellir eu hanwybyddu. Mewn achosion o'r fath dylai arweinwyr rhaglen sicrhau bod y myfyrwyr yn deall yn llawn yn hyn sy'n ofynnol ganddynt a'r hyn fydd yn cael ei gosbi.

Dylid marcio asesiadau ymgeiswyr ag anableddau dysgu penodol yn gadarnhaol ar gyfer cynnwys, gan ganolbwyntio ble'n bosibl ar yr hyn sy'n cael ei ddadlau yn hytrach na sut y caiff ei gyflwyno. Ble bynnag y bo'n bosibl, dylai marcwyr osgoi cosbi am:

- frawddegau byr â diffyg cysylltiad â'r rhai blaenorol neu'r rhai sy'n dilyn;
- brawddegau sydd wedi newid cyfeiriad yn y canol;
- ailadrodd strwythurau brawddegau;
- hoffter o ddefnyddio termau anacademaidd;
- brawddegau sy'n rhy hir gyda gormodedd o gysyllteiriau y gellid eu torri'n frawddegau byrrach;
- ailddatgan yr un pwynt trwy eirio ychydig yn wahanol;
- llawysgrifen annarllenadwy.

Adnoddau defnyddiol

Ceir gwybodaeth ac adnoddau pellach ar gyfer cefnogi ymgeiswyr ag anabledd dysgu penodol ar y gwefannau canlynol:

Cymdeithas Dyslecsia Prydain: www.bdadyslexia.org.uk
Y Sefydliad Dyspraxia: www.dyspraxiafoundation.org.uk
Sefydliad Anableddau Dysgu Prydain: www.bild.org.uk

11. DIOGELWCH ASESIADAU: Sut i'w cadw'n ddiogel

Mae'r bennod ganlynol yn amlinellu'r rhagofalon y dylai canolfannau cydweithredol eu cymryd i sicrhau diogelwch asesiadau.

Disgwyliadau sylfaenol y Brifysgol

Mae'n ofynnol i ganolfannau cydweithredol sicrhau bod yr holl asesiadau, a dogfennau cysylltiedig, yn cael eu cadw a'u trosglwyddo dan amodau cwbl gyfrinachol. Rhaid hysbysu'r Brifysgol am unrhyw doriadau diogelwch posibl.

Mae'n holl bwysig trwy gydol y broses hon bod y gofal mwyaf posibl yn cael ei arfer wrth sicrhau cyfrinachedd yr asesiadau cyn iddynt gael eu cynnal. Rhaid gwneud yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau yn y maes hwn a dylid sicrhau nad yw eu drafftiau gwaith yn ogystal â phapurau wedi'u cwblhau yn cael eu gwneud yn gyhoeddus boed fel copi caled neu drwy rwydwaith cyfrifiadur.

Wrth ymgymryd â'r broses o gymeradwyo asesiadau, gellir trosglwyddo papurau arholiad drafft i'r Gofrestrfa trwy e-bost, ar yr amod eu bod yn cael eu hamddiffyn gan gyfrinair a bod y cyfrinair yn cael ei drosglwyddo ar wahân.

Cadw asesiadau a sgriptiau

Fel awdurdod dyfarnu graddau yn y DU, mae'r Brifysgol yn dilyn fframwaith ar gyfer cadw cofnodion a nodir gan y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth (y Cydbwyllgor). Mae'n bwysig bod pob sefydliad addysg uwch yn cadw cofnodion er mwyn rheoli ei faterion ei hun mewn modd priodol. Mae canllawiau'r Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth yn awgrymu fel isafswm y dylai sefydliad gadw asesiadau am y flwyddyn academaidd gyfredol, ac un flwyddyn ychwanegol (h.y. dwy flynedd).

Mae'r Cydbwyllgor hefyd yn argymhell y dylid cadw sgriptiau myfyrwyr sy'n codi o asesiadau am isafswm o chwe mis yn dilyn cadarnhad o'r marciau gan fwrdd arholi.

Bydd canolfannau cydweithredol am adolygu polisïau cadw o'r fath yn unol â'u cyrff cyngori rhanbarthol eu hunain ble'n briodol, gan gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth ranbarthol ar faint o amser sydd gan ymgeisydd i apelio yn erbyn marc a ddyfarnwyd gan fwrdd arholi.

Mae'r Brifysgol yn argymhell bod canolfannau cydweithredol yn cadw pob asesiad am isafswm o ddwy flynedd yn dilyn ystyriaeth gan fwrdd arholi wedi ei gyfansoddi'n llawn gan PC.

12. CANLLAWIAU AR DDULLIAU ASESU

Mae'r bennod hon yn adeiladu ar Bennod 4, ac yn rhoi gwybodaeth am y dulliau y gellir eu mabwysiadu wrth osod asesiadau.

Arholiadau

Arholiadau ysgrifenedig yw'r dull gweithredu mwyaf traddodiadol o bosib tuag at asesiad cyfansymiol o fewn addysg uwch. Yn ogystal â gwybodaeth o'r pwnc, mae'r arholiad hefyd yn gofyn am stamina gan fyfyrwyr a sicrwydd bod eu llawysgrifen yn ddarllenadwy. Mae papurau arholiad yn peri eu problemau eu hunain, lle na chyflenwir cwestiynau â modd o esbonio'r cwestiwn, a all arwain weithiau at gamddehongliad gan y myfyriwr sy'n ateb. Er mwyn mynd i'r afael â phroblemau o'r fath, efallai gall athrawon:

- ddefnyddio brawddegau byr;
- fod yn eglur ynghylch pa ganlyniadau dysgu sy'n cael eu hasesu;
- sicrhau bod cydweithwyr hefyd yn rhan o adolygu'r cwestiynau er mwyn sicrhau nad oes angen unrhyw esboniadau;
- cwblhau ateb enghreifftiol i'r cwestiwn, ac ystyried a ellid newid y cwestiwn mewn unrhyw ffordd i wella'r ystyr.

Er mwyn sicrhau bod myfyrwyr hefyd yn cael cefnogaeth i berfformio ar eu gorau wrth sefyll yr arholiadau, efallai gall athrawon:

- sicrhau bod cynllun y papur yn glir, gyda datganiad clir ynghylch sut caiff marciau eu dyrannu ar gyfer pob cwestiwn;
- cynnwys data sy'n gofyn i'r myfyrwyr ddefnyddio'u gwybodaeth yn hytrach nac ailadrodd eu dealltwriaeth;
- gwneud i bob cwestiwn fynd i'r afael ag agwedd benodol ar y maes llafur;
- defnyddio dyfyniadau o werslyfrau gosod er mwyn annog defnyddio sgiliau beirniadol a dadansoddol.

Mae'n bwysig bod yn eglur ynghylch meini prawf yr arholiad wrth osod yr arholiad, ac i sicrhau bod cynllun marcio eglur ar gael y gellir ei berthnasu i'r cwestiynau gosod. Dylai cynlluniau marcio fod yn glir er mwyn sicrhau y gall unigolyn arall farcio'r arholiadau hefyd. Yn benodol, efallai bydd staff am ystyried sut caiff marciau eu neilltuo i fyfyrwyr a allant wneud camgymeriad yn gynnar o fewn cwestiwn, ac felly effeithio ar weddill eu hateb. Yn ogystal, a ddylid marcio myfyrwyr nad ydynt wedi ateb yr hyn a ddisgwyliwyd yn gaeth, ond sydd wedi darparu ateb rhagorol.

Gwaith cwrs

Gall gwaith cwrs gynnwys sawl dull o asesu gan gynnwys, *inter alia*, traethodau estynedig, adroddiadau neu adolygiadau. Mae gan bob ffurf ar gyflwyniad fformat penodol iawn sy'n gofyn pethau gwahanol gan y myfyriwr. Er y gall fod yn anodd darparu canllawiau penodol ar gyfer pob fformat gwaith cwrs, dylid ystyried yr egwyddorion trosfwaol canlynol:

- dylid hysbysu myfyrwyr yn llawn am yr hyn sy'n ddisgwyliedig ganddynt wrth ymgymryd â gwaith cwrs
- treulio amser yn amlinellu strwythur y cyflwyniad gyda myfyrwyr yn y dosbarth.
- sicrhau bod myfyrwyr yn ymwybodol o'r adnoddau sylfaenol y byddai disgwyl iddynt eu defnyddio
- ceisio bod yn greadigol wrth gynllunio'r asesiad er mwyn annog defnyddio sgiliau gwybyddol beirniadol a chreadigol myfyrwyr.
- gosod terfynau amser clir ar gyfer cyflwyno'r gwaith.

Gwaith ymarferol neu waith maes

Gall gwaith ymarferol a gwaith maes fod yn agwedd hanfodol ar asesu ar gyfer disgyblaethau penodol. Pan fydd hyn yn digwydd, dylid cyflwyno myfyrwyr i ymarferoldeb ymgymryd ag asesiad o'r fath yn gynnar er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o sut y byddant yn cael eu hasesu. Fe all agweddau o'r fath tuag at asesu ofyn bod myfyrwyr yn creu arteffactau fel llyfrau cofnodion neu bosteri i adlewyrchu'r dulliau gweithredu a gymerwyd ganddynt yn ystod yr asesiad. Fe all y dull hwn o asesu hefyd gynnwys agweddau o waith grŵp neu asesiad gan gymheiriaid a hunanasesiad.

Dylid rhoi cyfle i fyfyrwyr fyfyrion ar sut y byddent wedi gallu ymgymryd â'r gwaith yn well i ddatblygu eu sgiliau rhesymegu beirniadol myfyriol eu hunain. Efallai bydd athrawon am ddatblygu ffurfiau ar gwestiynau y gellir eu defnyddio mewn amryw o wahanol brosiectau mewn arholiad llafar ar ganlyniadau asesiad y gwaith ymarferol neu'r gwaith maes.

Dylai meini prawf ar gyfer asesu trwy waith ymarferol a gwaith maes fod yn dryloyw a dylent drin pob myfyriwr yn gyfartal waeth beth yw amrywiaeth y gwaith ymarferol neu waith maes a asesir. Mewn achosion o'r fath, mae'n bwysig sicrhau bod y canlyniadau dysgu a fwriedir yn cael eu hadlewyrchu'n glir yn y meini prawf asesu.

Cyflwyniadau a phortffolios

Mae cyflwyniadau a phortffolios o waith yn peri her unigryw o ran eu cyflawniad, gan eu bod yn rhoi cyfle i fyfyrwyr gymryd rhan mewn dull creadigol o asesu, sydd weithiau'n annog yr arholwr i fod yn oddrychol.

Mae dulliau asesu o'r fath hefyd yn arwain at y posibilrwydd o adborth cyflym ar waith, yn ogystal â chyfle i gynnwys agweddau ar asesu gan gymheiriaid. Mae'n bwysig felly i sicrhau bod meini prawf tryloyw ac eglur ar gyfer asesu gwaith o'r fath o ddechrau'r asesiad. Wrth baratoi ar gyfer asesiad o'r fath, efallai yr hoffai staff ystyried:

- sicrhau bod meini prawf marcio'n cael eu hamlinellu'n glir ar ddechrau'r asesiad;
- cynnwys ail aelod o staff wrth ymgymryd â'r asesiad;
- defnyddio fformat cyffredinol ar gyfer asesu i gynorthwyo myfyrwyr i ddangos y canlyniadau dysgu a fwriedir;
- gosod cyfyngiad ar amser a / neu faint yr asesiad;
- amlinellu canllawiau ar ddefnyddio defnyddiau gweledol neu glywedol;
- recordio'r cyflwyniad neu ryngweithio rhwng unigolion yn ystod yr asesiad er mwyn lleihau problemau sy'n codi o anghydfod dros farciau;
- rhoi adborth yn syth sy'n amlinellu cryfderau a gwendidau'r asesiad, heb ddatgelu marc penodol o anghenraid nes y bydd pob myfyriwr wedi cael ei asesu;
- ceisio cynnwys sesiwn cwestiwn ac ateb ar ddiwedd y rhyngweithio, lle bydd myfyrwyr hefyd yn cael eu hasesu ar eu hymatebion.

Gwaith grŵp

Materion allweddol wrth asesu gwaith grŵp

Un o ganlyniadau dysgu pwysig y rhan fwyaf o raglenni israddedig ac ôl-raddedig y Brifysgol yw bod myfyrwyr yn dysgu sut i weithio'n effeithiol mewn timau. Yn ogystal, mae gwaith grŵp yn annog datblygu sgiliau sy'n ddefnyddiol yn y byd gwaith (e.e. cydweithio, trafod, arweinyddiaeth, dirprwyo etc.) a all fod yn anodd eu cyflawni trwy ffurfiau eraill o weithgaredd (ac asesu). Mae gwaith grŵp hefyd yn caniatáu i fyfyrwyr ddysgu gan ei gilydd.

O ganlyniad, mae mwyafrif helaeth rhaglenni PC mewn canolfannau cydweithredol yn defnyddio gwaith grŵp fel elfen o fewn eu strategaethau asesu dysgu ac addysgu. Fodd bynnag, mae angen ystyried pedwar mater allweddol wrth asesu gwaith grŵp:

- i) Pa ganlyniadau dysgu rhaglen a modiwl sydd i gael eu hasesu gan y gweithgaredd sy'n seiliedig ar grŵp?
- ii) A oes angen asesu cyfraniadau myfyrwyr unigol i weithgaredd sy'n seiliedig ar grŵp?
- iii) Mae'n bwysig asesu ai'r canlyniad a gynhyrchir gan y myfyrwyr (e.e. adroddiad, dyluniad, cynnyrch etc.), neu ai'r broses o gynhyrchu (h.y. y ffordd mae'r grŵp wedi cydweithio) sy'n bwysig?
- iv) Pwy sy'n rhan o'r asesiad (e.e. a fydd hunanasesu gan fyfyrwyr, neu asesiad allanol arbenigol yn cael ei ddefnyddio)?

Bydd canlyniadau'r ystyriaethau hyn yn cael effaith ddiffiniol ar y math o asesiad a ddefnyddir. Felly gall gwaith grŵp asesu amryw o wahanol bethau, gan gynnwys gwybodaeth a dealltwriaeth, sgiliau dadansoddi, sgiliau cyfathrebu etc. Gall hefyd ganiatáu gwneud dyfarniadau ar ba mor effeithiol mae'r grŵp wedi cydweithio â'i gilydd, a'r sgiliau mae pob myfyriwr unigol wedi'u datblygu trwy'r gweithgaredd grŵp.

Ffyrdd o asesu gwaith grŵp

Mewn unrhyw asesiad grŵp, mae'n bosibl nodi gwahanol elfennau i'w hasesu, pob un ohonynt yn cyfrannu ar wahân i lwyddiant (neu fel arall) gweithgaredd y grŵp. Felly gall y cynllun marcio cysylltiedig ddyrannu rhai marciau am y 'cynnyrch' (canlyniad y gweithgaredd), rhai am y 'broses' (sut y gweithiodd y grŵp gyda'i gilydd) a rhai am gyfraniad myfyrwyr unigol.

Mae nifer o ddulliau ar gyfer asesu gwaith grŵp. Mae i bob un ohonynt ei fanteision a'i anfanteision. Dyma rai o'r dulliau a ddefnyddir amlaf:

- i) Tasg grŵp lle mae pob unigolyn yn cynhyrchu canlyniad neu 'cynnyrch' penodol o fewn y grŵp a lle dyrannir marciau unigol i aelodau.
- ii) Tasg grŵp i gynhyrchu 'cynnyrch' unigol lle dyrannir yr un marc i bob aelod.
- iii) Tasg grŵp i gynhyrchu 'cynnyrch' unigol gyda marc mewn dwy ran; un ar gyfer y cynnyrch (a rennir gan yr holl aelodau), a marc ar wahân i bob aelod yn seiliedig ar gyflwyno darn unigol o waith.
- iv) Tasg grŵp i gynhyrchu 'cynnyrch' unigol gyda marc mewn dwy ran; un ar gyfer y cynnyrch (a rennir gan yr holl aelodau), a marc ar wahân i bob aelod yn seiliedig ar hunanasesiad gan aelodau unigol y tîm.

Bydd y dull a ddewisir yn cael ei lywio gan ystyriaeth o'r materion a ddisgrifir uchod ac union gyd-destun y gweithgaredd grŵp mewn perthynas â'r modiwl (neu fodiwlau) a'r rhaglen gyffredinol.

Fodd bynnag, mater pwysig ym mhob asesiad seiliedig ar grŵp yw canfod ac ymdrin â'r 'sawl sydd ddim yn cyfrannu', h.y. y myfyriwr sy'n methu â chyfrannu'n briodol (neu o gwbl) at weithgaredd y grŵp. Dyma lle mae dyrannu marc unigol i grŵp (dull ii. uchod) weithiau'n aneffeithiol.

Ffynonellau sy'n dangos tystiolaeth o gyfraniad myfyrwyr unigol i waith grŵp

Mae nifer o ffynonellau sy'n dangos tystiolaeth o gyfraniad myfyriwr unigol i asesiad sy'n seiliedig ar grŵp. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cofnodion o gyfarfodydd grŵp – yn ddelfrydol wedi eu llofnodi gan aelodau unigol y grŵp;

- llyfrau cofnodi neu ddyddiaduron o'r gwaith wedi eu cadw gan fyfyrwyr unigol;
- portffolios unigol o'r gwaith a all gynnwys yr uchod neu rywfaint ohonynt;
- cyflwyniadau unigol gan aelodau'r grŵp ar gam casgliad yr asesiad;
- asesiad gan gymheiriaid gan fyfyrwyr yn dangos sut y gwnaeth aelodau'r grŵp gydweithio;
- sgoriau asesiad gan gymheiriaid yn dangos perfformiad unigol, lle na chaniateir i sgoriau fod yn uwch na marc yr asesydd.

O ran asesiadau gan gymheiriaid gan fyfyrwyr, gellir defnyddio sawl dull gweithredu fel sail i asesiad o'r fath. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cofnod o bresenoldeb mewn cyfarfodydd grŵp;
- cyfraniad syniadau ar gyfer y tasgau grŵp;
- ymchwilio, dadansoddi a chasglu defnydd ar gyfer y tasgau grŵp;
- cyfraniad at brosesau'r grŵp;
- cefnogaeth ac anogaeth i aelodau'r grŵp;
- cyfraniad ymarferol at y 'cynnyrch' terfynol;
- cyfraniad at yr adroddiad asesu terfynol.

Pa bynnag ddull gweithredu a ddefnyddir i asesu gwaith grŵp, bydd yn hollbwysig bod myfyrwyr yn cael eu hysbysu ymlaen llaw ynghylch sut bydd yr asesiad yn cael ei gynnal, a pha feini prawf asesu a chynllun marcio fydd yn cael eu defnyddio.

Asesu gan gymheiriaid a hunanasesu

Mae hwyluso hunanasesu ac asesu gan gymheiriaid yn agwedd anodd a heriol iawn sydd wedi dod yn boblogaidd wrth ddatblygu agweddau beirniadol tuag at bynciau. Mae gwaith o'r fath yn gofyn am symud cyfrifoldeb am asesu oddi wrth y darlithydd i unigolyn neu grŵp o fyfyrwyr. Er mwyn cynnal y ffurf hon ar asesu dylai staff fod wedi derbyn hyfforddiant i ddefnyddio'r dechneg yn effeithiol ac yn llwyddiannus.

Asesiadau ar-lein

Mae asesu ar-lein wedi dod yn fformat poblogaidd ar gyfer asesu myfyrwyr a all fod yn rhan o raglen gymysg o asesu dysgu neu'n brofiad dysgu ar-lein llawn. Mae asesiad ar-lein yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddefnyddio manylion penodol i fynd at blatfform ar-lein, sydd wedyn yn herio myfyrwyr i gwblhau set o gwestiynau. Gellir dewis cwestiynau ar hap o fanc asesu sydd wedi ei ddiffinio eisoes, gan arwain at atebion ie / na sy'n cael eu marcio'n awtomatig, neu a all gynnwys arholiadau estynedig. Gall cael cyfle i ddefnyddio adnoddau ar-lein i asesu fod yn fuddiol, yn arbennig wrth gefnogi dysgwyr hyblyg. Fodd bynnag, mae hefyd llawer o faterion ynghylch asesu ar-lein y mae angen i'r sector addysg uwch fynd i'r afael yn llawn â nhw. Mae'r ystyriaethau y mae angen talu sylw iddynt yn cynnwys:

- cymaroldeb caledwedd a meddalwedd a ddefnyddir gan fyfyrwyr i fynd at y platfform asesu;
- ystyriaeth o fethiant technegol caledwedd neu feddalwedd yn ystod asesiad;
- sicrhau bod defnydd sy'n cael ei arddangos yn ystod yr asesiad yn berthnasol ac yn briodol i'r dasg;
- sicrhau bod myfyrwyr yn derbyn gwybodaeth ac yn deall sut bydd yr asesiad yn cael ei weinyddu;
- sicrhau nad oes cyfle am lôn-ladrad yn ystod yr asesiad;

- sicrhau hunaniaeth y myfyriwr sy'n ymgymryd â'r asesiad;
- sicrhau bod amodau wedi'u rheoli'n briodol i'r myfyriwr ar gyfer ymgymryd â'r asesiad;
- sicrhau y gellir rhoi adborth priodol i fyfyrwyr ar ddiwedd yr asesiad i sicrhau bod yr asesiad yn cyfrannu at waith yn y dyfodol;
- sicrhau bod y defnyddiau arholi'n cael eu diogelu'n briodol, yn ogystal â marciau'r myfyrwyr wedi hynny.

Y tu hwnt i'r materion technegol a allant godi ac a amlinellir uchod, mae'r materion academiaidd yn hollbwysig i werth parhaol y dyfarniad a enillir ar y diwedd. Un o'r ffyrdd sylfaenol o roi sylw i hyn yw sicrhau bod myfyrwyr yn llwyr ymwybodol o uniondeb academiaidd a disgwyliadau'r sefydliad na fydd myfyrwyr yn ymgymryd ag arferion anonest. Y tu hwnt i hyn, efallai bydd staff sy'n ymwneud ag asesu ar-lein am ystyried y posibilïadau canlynol, *inter alia*:

- defnyddio cyfres o dasgau unigol dilyniannol trwy gydol y modiwl neu raglen. Byddai cynllunio asesiadau'n gofyn bod myfyrwyr yn cwblhau darllen dosbarth ac ymateb mewn modd unigol i'r asesiadau
- hwyluso gwaith grŵp a fyddai angen rhyngweithio rhwng myfyrwyr i drafod a chyfrannu at brosiect terfynol
- defnyddio arholiadau llyfr agored sydd angen asesiadau helaeth sy'n defnyddio'r adnoddau sydd ar gael, ac yna'n cael ei gyfeirnoddi trwy feddalwedd paru testun
- gosod cwestiynau sy'n gofyn i'r myfyriwr ddangos meistrolaeth o'r maes pwnc, a hefyd i gyfeirnoddi ei brofiad ac ymateb personol neu broffesiynol i'r dysgu.

13. ADNODDAU

Mae'r adran ganlynol yn rhoi rhestr o adnoddau a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r ddogfen hon, yn ogystal ag adnoddau a all fod yn ddefnyddiol ar gyfer gwybodaeth bellach.

Bloom, B.S., M.D. Englehart, E.J. Furst, W.H. Hill, a D.R. Krathwohl, *Taxonomy of Education Objectives: Cognitive Domain*, Efrog Newydd, 1956.

Bloxham, Sue a Pete Boyd, *Developing Effective Assessment in Higher Education: a practical guide*, Maidenhead, 2007.

Cymdeithas Dyslecsia Prydain, *Gwefan Cymdeithas Dyslecsia Prydain*, www.bdadyslexia.org.uk (defnyddiwyd 10/06/14).

Carroll, Jude, *A Handbook for Deterring Plagiarism in Higher Education*, Rhydychen, 2002.

Gibbs, Graham, *Using assessment to support student learning at University of East Anglia*, Leeds, 2010.

Institute of Physics, *Supporting STEM students with dyslexia: A good practice guide for academic staff*, Llundain, 2013.

Moore, Ivan a Sarah Williamson, *Engineering Subject Centre Guide: Assessment of Learning Outcomes*, Higher Education Academy Engineering Subject Centre, Swydd Gaerlŷr, 2008.

Newton, Paul E., 'Clarifying the purposes of educational assessment', *Assessment in Education*, Cyfrol XIV, 2007, 149-170.

Olt, Melissa R., 'Ethics and Distance Education: Strategies for Minimizing Academic Dishonesty in Online Assessment', *Online Journal of Distance Learning Administration*, Cyfrol V, 2002, www.westga.edu (defnyddiwyd 11/06/15).

Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, *Understanding assessment: its role in safeguarding academic standards and quality in higher education*, Caerloyw, 2012.

Race, Phil, *The Lecturer's Toolkit: A practical guide to assessment, learning and teaching*, Abingdon, 2015.

Cymdeithas Seicolegol Prydain, *International Guidelines on Computer-Based and Internet Delivered Testing*, Caerlŷr, 2005.

Yr Academi Addysg Uwch, *A Marked Improvement: Transforming assessment in higher education*, Efrog, 2012.

Prifysgol Salford, *University Assessment Handbook: A Guide to Assessment Design, Delivery and Feedback*, Salford, 2012.

Prifysgol Ulster, *Assessment Handbook*, Ulster, 2014.

Watkins, Rob, *Groupwork and Assessment: The Handbook for Economics Lecturers*, gol. Peter Davies, Bryste, 2013.

Atodiad A: Meini prawf Prifysgol Cymru

Bwriedir y rhain yn bennaf fel meini prawf generig ar lefel rhaglen.

A Lefel Israddedig

- Dosbarth Cyntaf (70-100%)

Mae gwaith dosbarth cyntaf yn gymharol brin a disgwylir iddo ragori ar waith myfyrwyr eraill. Er y gall achosion godi lle gallai nifer o fyfyrwyr gyflawni marciau dosbarth cyntaf mewn meysydd penodol o astudiaeth, wrth gyfansymu'r marciau a ddyfarnir ar gyfer gwahanol elfennau o asesiad ni fyddai disgwyl i lawer o fyfyrwyr gyflawni canlyniad dosbarth cyntaf cyffredinol.

- mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r cwestiynau neu broblemau a godwyd
- darparu dadl gydynol sy'n dangos gwybodaeth helaeth o wybodaeth berthnasol
- gwerthuso cysyniadau a damcaniaeth yn feirniadol
- cysylltu damcaniaeth ag arfer
- adlewyrchu dadl y myfyriwr ei hun ac nid ailadrodd darlithoedd a deunydd cyfeirio safonol yn unig
- mae'n gywir iawn
- elfen o newydd-deb os nad gwreiddioldeb
- darparu tystiolaeth o ddarllen y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol
- dangos ymwybyddiaeth o agweddau eraill tuag at faes y broblem
- mae'n gwerthfawrogi ystyriaethau methodolegol ac yn dangos ymwybyddiaeth o gyfyngiadau gwybodaeth gyfredol
- dangos defnydd rhagorol o ddata ac enghreifftiau perthnasol, oll wedi eu cyfeirio'n gywir

- Ail Ddosbarth Uwch (60-69%)

Mae hon yn lefel gymwys iawn o berfformiad a gellir barnu bod myfyrwyr sy'n ennill y dosbarthiad gradd hwn yn alluog i gofrestru ar gyfer gwaith ymchwil gradd uwch.

- mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r cwestiynau neu broblemau a godwyd
- darparu dadl gydynol gan ddefnyddio gwybodaeth berthnasol
- dangos rhywfaint o allu i werthuso cysyniadau a damcaniaeth a chysylltu damcaniaeth ag arfer
- adlewyrchu dadl y myfyriwr ei hun ac nid ailadrodd darlithoedd a deunydd cyfeirio safonol yn unig
- nid yw'n dioddef o unrhyw gamgymeriadau neu hepgorion mawr
- dangos tystiolaeth o ddarllen y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol
- dangos ymwybyddiaeth o agweddau eraill tuag at faes y broblem
- dangos defnydd da o ddata ac enghreifftiau perthnasol, oll wedi eu cyfeirio'n gywir

- Ail Ddosbarth Is (50-59%)

Mae hon yn lefel dderbyniol o berfformiad a dylid disgwyl i bob myfyriwr cymwys gyflawni i'r lefel hon fel man lleiaf.

- mynd i'r afael â'r cwestiwn ond darparu amlinellid sylfaenol yn unig o'r dadleuon a thystiolaeth berthnasol ar linellau'r hyn a gynigiwyd yn y darlithoedd a'r deunydd cyfeirio
- atebion clir ond cyfyngedig
- rhai mân hepgorion a chamgymeriadau ond dim camgymeriadau mawr

- Trydydd Dosbarth (40-49%)

Mae'r lefel perfformiad hon yn dangos rhywfaint o wybodaeth ac elfen o ddealltwriaeth ond mae'n wan. Dylai myfyrwyr sy'n cyflawni'r lefel hon o berfformiad fod mewn lleiafrif bach o'r rhai ar y cwrs ac ni ellid disgwyl iddynt fynd ymlaen at waith gradd uwch.

- nid yw'r pwyntiau yn yr ateb bob tro'n cael eu cefnogi'n dda gan ddadl a thystiolaeth
- pwyntiau perthnasol wedi eu hepgor o'r ateb
- mae rhai camgymeriadau yn yr ateb
- mae rhannau o'r cwestiwn heb eu hateb
- gall atebion fod yn rhy fyr ac o bosib ar ffurf nodiadau

- Methiant Ffiniol (35-39%)

Nid yw myfyrwyr yn y categori hwn wedi gwneud digon i ddarbwyllo'r arholwyr y dylent basio¹⁰.

- diffyg amgylfred cydynol o'r problemau a'r materion a godwyd yn y cwestiwn

¹⁰ Yn unol â'r Protocolau Academaidd perthnasol, gellir dyfarnu 'Gradd Pasio' i ymgeiswyr Graddau Cychwynnol lle mae eu marc cyffredinol rhwng 35 a 39%.

- mae gwybodaeth bwysig wedi cael ei hepgor o'r atebion ac mae pwyntiau amherthnasol wedi cael eu cynnwys
- atebion yn llawer rhy fyr

- Methiant (Dan 35%)

Mae myfyrwyr sydd wedi methu wedi methu â darbwyllo'r arholwyr eu bod wedi elwa'n ddigonol o astudiaeth academiaidd.

- methu â dangos unrhyw wybodaeth neu ddealltwriaeth o'r materion a godwyd yn y cwestiwn
- dangos camddealltwriaeth sylfaenol o'r maes pwnc
- mae mwyafrif y defnydd yn yr ateb yn amherthnasol

B Lefel Ôl-raddedig

Mae'r meini prawf gradd generig canlynol ar waith ar gyfer graddau ôl-raddedig (elfen a addysgir ac elfen traethawd hir):

Gradd ddangosol	% marciau'r DU	Nodweddion
A	70% +	Safon uchel iawn o ddadansoddiad beirniadol yn defnyddio fframweithiau cysyniadol priodol Dealltwriaeth ac esboniad rhagorol o faterion perthnasol Dadleuon wedi'u strwythuro'n glir ac wedi'u datblygu'n rhesymegol Ymwybyddiaeth dda o nawsau a chymhlethdodau Tystiolaeth sylweddol o ymchwil annibynnol wedi ei gyflawni'n dda Gwerthusiad a chyfuniad rhagorol o ddefnydd gwreiddiol Defnydd rhagorol o ddata ac enghreifftiau perthnasol, oll wedi'u cyfeirnodu'n gywir
	Rhagoriaeth 70% ac uwch	
B	69-60 %	Safon uchel o ddadansoddiad beirniadol yn defnyddio fframweithiau cysyniadol priodol Ymwybyddiaeth ac esboniad clir o faterion perthnasol Dadl wedi'i strwythuro'n glir ac wedi'i datblygu'n rhesymegol Ymwybyddiaeth o nawsau a chymhlethdodau Tystiolaeth o ymchwil annibynnol Gwerthusiad a chyfuniad da o ddefnydd gwreiddiol Defnydd da o ddata ac enghreifftiau perthnasol, oll wedi'u cyfeirnodu'n gywir
C	59-50 %	Defnyddio fframweithiau cysyniadol priodol Ceisio dadansoddi ond yn cynnwys rhai camgymeriadau a/neu hepgorion Dangos ymwybyddiaeth o faterion ond dim mwy na'r disgwyl o fod wedi mynychu dosbarthiadau Dadleuon yn rhesymol o eglur ond heb eu datblygu Tystiolaeth annigonol o ymchwil annibynnol Gwerthusiad annigonol o ddefnydd gwreiddiol Peth defnydd da o ddata ac enghreifftiau perthnasol, ond heb eu cyfeirnodu'n gyflawn
D	49-40 %	Dealltwriaeth ddigonol o fframweithiau cysyniadol priodol Ateb yn rhy ddisgrifiadol a/neu unrhyw ymgais i ddadansoddi yn arwynebol, yn cynnwys camgymeriadau a/neu hepgorion Dangos ymwybyddiaeth gyfyngedig o faterion ond rhywfaint o ddrysych hefyd Nid yw dadleuon yn arbennig o glir Tystiolaeth gyfyngedig o ymchwil annibynnol a dibyniaeth ar ailadrodd nodiadau dosbarth yn arwynebol Defnydd cymharol arwynebol o ddata, ffynonellau ac enghreifftiau perthnasol ac wedi eu cyfeirnodu'n wael
	Marc Pasio PC = 40%	
E	39 – 30 %	Dealltwriaeth wan o fframweithiau cysyniadol priodol Dadansoddi gwan a nifer o gamgymeriadau a hepgorion

Gradd ddangosol	% marciau'r DU	Nodweddion
		Sefydlu ychydig o bwyntiau perthnasol ond esboniad arwynebol a dryslyd o faterion Dim tystiolaeth o ymchwil annibynnol a dealltwriaeth wael o nodiadau dosbarth Defnydd gwael neu ddim defnydd o ddata, ffynonellau ac enghreifftiau perthnasol a dim cyfeirnod
F	29% ac yn is	Dealltwriaeth wan iawn neu ddim dealltwriaeth o fframweithiau cysyniadol priodol Amgyffred gwan iawn neu ddim amgyffred o ddadansoddiad a llawer o gamgymeriadau a hepgorion Ychydig iawn neu ddim dealltwriaeth o'r materion a godwyd gan y cwestiwn Dim cyfeiriadau priodol at ddata, ffynonellau, enghreifftiau na hyd yn oed nodiadau dosbarth

Noder: Dim ond ar gyfer darnau eithriadol o waith y caiff marciau rhagoriaeth (70% +) eu dyfarnu.

Atodiad B: Meini Prawf Generig ar gyfer Asesu Modiwl

Mae'r canlynol yn amlinellu'r meini prawf generig ar gyfer asesiadau ar lefel 6.

Marciau / Categori Asesiad	0-19	20-39	40-49	50-59	60-69	70-79	80-100
Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Pwnc	Anghywirdebau sylweddol, yn dangos bylchau mawr mewn gwybodaeth a dealltwriaeth o ddefnydd ar y lefel hon.	Rhai anghywirdebau sylweddol, yn amlygu bylchau mewn gwybodaeth, gyda dealltwriaeth arwynebol yn unig.	Dealltwriaeth o brif agweddau maes astudiaeth, yn dangos gwybodaeth gydlynol, wedi ei lywio'n rhannol o leiaf gan ymchwil cyfredol yn nisgyblaeth y pwnc.	Gwybodaeth a dealltwriaeth briodol o egwyddorion a chysyniad y maes astudiaeth.	Tystiolaeth o ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r maes astudiaeth, yn dangos gwybodaeth gydlynol a defnydd o ymchwil cyfredol yn nisgyblaeth y pwnc.	Gwybodaeth a dealltwriaeth ragorol o gysyniadau a phrif ddamcaniaethau'r ddisgyblaeth. Ymwybyddiaeth eglur o gyfyngiadau'r sail gwybodaeth.	Gwybodaeth a dealltwriaeth hynod o fanwl o brif ddamcaniaethau a chysyniadau'r ddisgyblaeth, ac ymwybyddiaeth o amwyseddau a chyfyngiadau gwybodaeth.
Sgiliau Gwybyddol a Deallusol	Diffyg unrhyw ymdrech i ddadansoddi, cyfuno neu werthuso gwybodaeth gan arwain at gyffredinol di-sail, heb ddefnyddio unrhyw dystiolaeth gredadwy. Diffyg rhesymeg, yn arwain at gasgliadau na ellir eu cefnogi neu gasgliadau ar goll. Cyfleu syniadau'n wael.	Datganiadau cyffredinol gydag ychydig iawn o dystiolaeth. Arddull ddisgrifiadol yn bennaf, gydag ychydig neu ddim dadansoddiad. Esboniad afresymegol o ganfyddiadau. Diffyg perthnasedd yn y casgliadau.	Tystiolaeth o ymdrech gyfyngedig i ddadansoddi a chyfuno gwybodaeth, ond gyda rhai gwendidau. Rhai casgliadau perthnasol ond nid yw'r dystiolaeth yn cael ei dadansoddi'n gyson.	Defnydd achlysurol perthnasol o feddwl rhesymegol a dadansoddi. Tystiolaeth o ymwybyddiaeth yn ymddangos o wahanol agweddau a gallu i ddefnyddio dystiolaeth i gefnogi'r ddadl. Casgliadau dilyn.	Tystiolaeth o ddadansoddi a perthnasol a chyfuno gwybodaeth. Gallu i gynnal dadleuon darbwyllog a gwneud dyfarniadau ar dystiolaeth. Gallu i gyfathrebu damcaniaethau a chasgliadau'n eglur. Casgliadau cadarn.	Gwaith sy'n amlwg yn rhesymegol, wedi ei gefnogi gan dystiolaeth sydd wedi ei ddethol a'i gwestiynu'n bwylllog. Dadansoddiad yn dangos gallu i archwilio'n annibynnol ac adeiladu dadl ddarbwyllog. Casgliadau cryf.	Gwaith rhagorol yn defnyddio dystiolaeth helaeth o werthuso a dadansoddi perthnasol a threiddgar. Honiadau'n dangos dystiolaeth o'r gallu i ymchwilio'n annibynnol a chanfod croesddywediadau o fewn gwybodaeth. Casgliadau hynod o ddarbwyllog.
Defnydd o Ymchwil – Llenyddiaeth Academaidd	Ychydig neu ddim dystiolaeth o ddarllen. Casgliadau heb eu cefnogi. Anwybyddu confensiynau academaidd yn helaeth.	Defnydd annigonol o lenyddiaeth. Tystiolaeth o ddibyniaeth ar ffynonellau amhriodol. Defnydd anghyson o gonfensiynau academaidd.	Defnydd cyfyngedig o ffynonellau gyda rhai hepgorion a chamgymeriadau. Confensiynau academaidd yn gyson gan mwyaf gyda rhai camgymeriadau.	Ystod addas o ffynonellau, gyda defnydd amlwg o lenyddiaeth wedi ei lywio gan ymchwil, gan gynnwys deunydd wedi ei gael yn annibynnol. Defnydd cyson o gonfensiynau academaidd.	Ystod gynhwysfawr o ffynonellau wedi eu llywio'n academaidd, sy'n cael eu gwerthuso a'u dadansoddi. Tystiolaeth o ddeunydd wedi ei gael yn annibynnol. Defnydd cyson o sgiliau academaidd.	Gwybodaeth a defnydd ardderchog o lenyddiaeth wedi ei lywio gan ymchwil wrth wraidd y gwaith. Dadansoddiad a gwerthusiad cyson o ffynonellau. Defnydd cyson o lefel uchel o sgiliau academaidd.	Gwybodaeth a defnydd rhagorol o lenyddiaeth wedi ei lywio gan ymchwil wedi ei ymgorffori'n bwylllog yn y gwaith. Dadansoddiad a gwerthusiad cyson o ffynonellau. Lefel uchel o sgiliau academaidd yn cael ei defnyddio'n gyson ac yn broffesiynol.
Cyflwyniad	Cyflwyniad, strwythur, gramadeg a sillafu annigonol.	Cyflwyniad, strwythur, gramadeg a sillafu gwael.	Cyflwyniad, strwythur, gramadeg a sillafu derbyniol.	Cyflwyniad, strwythur, gramadeg a sillafu priodol.	Cyflwyniad o ansawdd da, wedi ei strwythuro'n dda, yn defnyddio gramadeg a sillafu cywir.	Cyflwyniad ardderchog, wedi ei gyfeirio'n dda, wedi ei strwythuro'n rhesymegol, yn defnyddio gramadeg a sillafu cywir.	Cyflwyniad o ansawdd rhagorol, wedi ei strwythuro'n rhesymegol a chydlynol yn defnyddio gramadeg a sillafu cywir.

Atodiad C:

Templed ar gyfer Calendr Cymeradwyo Asesiad

Calendr Asesiadau

Nodwch yr wybodaeth ar gyfer yr holl asesiadau sydd i gael eu cynnal yn eich canolfan yn ystod y cyfnod rhwng 1 Awst 2014 a 31 Gorffennaf 2015.

Enw'r Ganolfan Gydweithredol

Rhaglen Astudiaeth	Teitl Modwlar	Lefel	Dyddiad yr Asesiad	Natur yr Asesiad

*Cyflwynwch y ffurflen hon, ynghyd ag unrhyw ymholiadau, i assessments@walesac.uk

Atodiad D:

Ffurflen Cymeradwyo Aseiad

Ffurflen Cymeradwyo Aseiad

Adran 1

Enw'r Ganolfan Gydweithredol:	
Rhaglen Astudio:	
Teitl Modiwl:	
Lefel:	
Math (e.e. Arholiad, Aseiniad, Gwaith cwrs):	
Dyddiad Arholiad\Taflen:	
Fersiwn:	

Adran 2

Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:

<u>Opsiwn A</u> Mae'r aseiad o safon briodol a gellir ei argraffu (mân ddiwygiadau i gael eu hymgorffori ble bo angen). ☐	<u>Opsiwn B</u> Dylid cyflwyno drafft diwygiedig o'r aseiad, gan roi sylw i'r sylwadau isod. ☐
<u>Sylwadau/Argymhellion:</u>	
Enw'r Arholwr Allanol:	
Dyddiad:	
Llofnod:	

Adran 3

Tystiaf drwy hyn fod y fersiwn drafft o'r aseiad a nodir uchod wedi cael ei chymeradwyo gan yr Arholwr Allanol, ac mai hon fydd fersiwn derfynol ar aseiad.
Enw:
Dyddiad:
Llofnod:

Anfonwch eich ffurflen wedi'i chwblhau ac unrhyw ymholiadau at: assessments@wales.ac.uk



University of Wales
Prifysgol Cymru

Atodiad E: Rhestr Wirio Cyflwyno Asesiad

Rhestr Wirio Cyflwyno Asesiad

Yng nghyd-destun y weithdrefn ar gyfer cymeradwyo asesiadau, defnyddir y term 'asesiad' i olygu unrhyw ffurf ar werthusiad sy'n arwain at roi marc, neu radd, mewn perthynas ag astudio ar gyfer dyfarniad Prifysgol Cymru.

Gan hynny, mae'n cynnwys:

- i. pob arholiadau, boed gyda chyfyngiadau amser ai peidio, llyfr agored ai peidio;
- ii. gwaith aseiniad cwrs, h.y. briffiau a meini prawf marcio; a
- iii. gwaith prosiect, h.y. briffiau a meini prawf marcio.

Sicrhewch eich bod yn cynnwys y canlynol pan fyddwch yn cyflwyno asesiad

- ☐ y papur cyntaf a phapurau ailsefyll ar y ffurf y bydd y myfyrwyr yn eu derbyn;
- ☐ cyfieithiad Saesneg ochr yn ochr â'r fersiwn yn yr iaith wreiddiol (os yn berthnasol);
- ☐ cyfarwyddiadau llawn i ymgeiswyr a manylion y dosraniad marciau arfaethedig;
- ☐ cynllun marcio;
- ☐ ffeiliau wedi eu diogelu gan gyfrinair (cyfrineiriau i gael eu hanfon mewn e-bost ar wahân)
- ☐ Ffurflen Cymeradwyo Asesiad (adran 1 yn unig i'w chwblhau gan y Ganolfan Gydweithredol)

Rhaid cyflwyno asesiadau i Brifysgol Cymru **o leiaf un wythnos ar bymtheg** cyn dyddiad yr asesiad naill ai fel atodiad e-bost i assessments@wales.ac.uk neu drwy gyfleuster uwchlwytho Prifysgol Cymru (manylion ar gais).

Bydd Prifysgol Cymru'n cydnabod derbyn eich asesiadau o fewn 10 diwrnod gwaith.

Atodiad F: Templed ar gyfer dilysu defnydd asesu sydd wedi ei gyfieithu



DILYSU DEFNYDD ASESU SYDD WEDI EI GYFIEITHU

Mae dilysiad defnydd asesu sydd wedi ei gyfieithu yn ddull pwysig o sicrhau ansawdd lle caiff rhaglenni'r Brifysgol eu cyflawni mewn iaith ar wahân i Gymraeg neu Saesneg.

Rhaid i'r datganiad canlynol gael ei lofnodi gan gyfieithydd / dilysydd cymeradwy gan y Brifysgol.

Canolfan gydweithredol: <ENW'R GANOLFAN GYDWEITHREDOL>

Teitl y rhaglen: <TEITL Y RHAGLEN>

Teitl y modiwl: <TEITL Y MODIWL>

Dyddiad yr asesiad: <DYDDIAD YR ASESIAD>

Math o ddefnydd: Arholiad / Aseiniad byr / Briff prosiect / Sgript ymgeisydd
(Dilëir rhai amherthnasol)

Yr wyf i <ENW'R CYFIEITHYDD/DILYSYDD> yn tystio i'r canlynol mewn perthynas â'r defnydd uchod.

Rwyf wedi adolygu'r cyfieithiad Saesneg a'r testun yn yr iaith gartref wreiddiol yn bersonol ac yn dilysu bod y testun Saesneg yn gyfieithiad cywir a llawn.

Iaith gartref y ddogfen wreiddiol yw <ENW'R IAITH GARTREF>

Llofnod:

Dyddiad:

Atodiad G: Ffurflen Adborth Enghreifftiol

Adborth i fyfyrwyr

Atodiad A: Ffurflen adborth enghreifftiol.

Bwriedir i'r ffurflen hon gael ei defnyddio ar gyfer prosiect seiliedig ar grŵp.

Teitl y modiwl		
Teitl yr asesiad		
Enw'r myfyriwr		
	<i>Meini prawf a marc uchaf</i>	<i>Marc a sylw</i>
<i>Perfformiad grŵp</i>	Eglurder y cyflwyniad /10	
Pwysoliad 60 %	Y sylw a roddir i'r materion gofynnol /10	
	Ystod a phriodoldeb y ffynonellau / 10	
	Ansawdd y cyflwyniad / 10	
<i>Perfformiad unigol</i>	Ymateb i gwestiynau / 10	
Pwysoliad 40 %	Cyfrifoldeb o fewn y grŵp / 10	
	Asesiad gan gymheiriaid / 10	